



Cronfa Ysgolion Gwell 2009-10

PHOTO REDACTED DUE TO THIRD PARTY RIGHTS OR OTHER LEGAL ISSUES

Canllawiau

Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif: 019/2008
Dyddiad cyhoeddi: Tachwedd 2008
Disodlir Cylchlythyr Rhif: 023/2007

Cronfa Ysgolion Gwell 2009-10

Cynulleidfa	Cynghorau Sir a Bwrdeistref Sirol yng Nghymru; Cyd-bwyllgor Addysg Cymru; Bwrdd yr Iaith Gymraeg; Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant; Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; Cyngor Addysgu Cyffredinol Cymru.
Trosolwg	Canllawiau i awdurdodau addysg lleol ar: • flaenoriaethau gwariant yn 2009-10; • dyraniadau grant; • trefniadau ar gyfer hawlio grantiau.
Camau i'w cymryd	Cyflwyno ffurflen cais am grant wedi'i chwblhau (Atodiad Ch) a Ffurflenni Gwybodaeth Reoli (Atodiad D) erbyn 6 Tachwedd 2008.
Rhagor o wybodaeth	Tîm y Gronfa Ysgolion Gwell Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth Cynulliad Cymru Parc Cathays Caerdydd CF10 3NQ Ffôn: 029 2082 6006/6820 E-bost: cronfaysgoliongwell@wales.gsi.gov.uk
Copïau ychwanegol	Gellir cael copïau ychwanegol yn y cyfeiriad uchod. Gellir cael y ddogfen hon hefyd o wefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn: http://www.cymru.gov.uk
Dogfennau cysylltiedig	Mae'r ddogfen hon yn disodli Cylchlythyr y Gronfa Ysgolion Gwell 2008-2009, WAGC 023/2007.



ISBN 978 0 7504 4741 6

© Hawlfraint y Goron Tachwedd 2008

CMK-22-07-301

D1310809

Cynnwys

	Tudalen
Crynodeb	2
Trefniadau cyllido	7
Monitro a gwerthuso perfformiad	14
Gwybodaeth arall	15
Ymholiadau	16
Atodiad A:	
Gweithgaredd 1 Gwella Safonau a Chyflawniad	17
Gweithgaredd 2 Trefniadau Cwricwlwm ac Asesu Diwygiedig	29
Gweithgaredd 3 Cynorthwyo Disgyblion, Diogelu ac Amddiffyn Plant	36
Gweithgaredd 4 Cynhwysiant	41
Gweithgaredd 5 Iaith Pawb mewn Ysgolion	48
Gweithgaredd 6 TGCh mewn Ysgolion	55
Atodiad B: Fformiwla dyraniadau	61
Atodiad C: Dyraniadau fformiwla AAllau	64
Atodiad D: Ffurflenni cais am grant/ cynllun gwariant	66
Atodiad E: Gwybodaeth Reoli	70
Camau Gweithredu ar gyfer AAllau:	

Cyflwyno cynlluniau gwariant, ffurflenni cais am grant (Atodiad D)
a Ffurflenni Gwybodaeth Reoli (Atodiad E) erbyn 18 Tachwedd 2008.

Crynodeb

Mae'r cylchlythyr hwn yn rhoi canllawiau i Awdurdodau Lleol (ALLau) ar raglen y Gronfa Ysgolion Gwell ar gyfer 2009-10. Mae'n disgrifio'r meysydd gweithgaredd a blaenoriaeth sy'n gymwys am gymorth grant o fewn y rhaglen, trefniadau rheoli'r rhaglen ynghyd â'r wybodaeth y dylai Awdurdodau Lleol ei darparu. Mae hefyd yn cynnwys manylion ynghylch y grant a ddyrennir i bob Awdurdod Lleol a'r trefniadau ar gyfer hawlio a thalu grantiau.

Mae'r cylchlythyr hefyd yn gofyn i Awdurdodau Lleol gyflwyno cynlluniau gwariant ffurfiol i'w cymeradwyo gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac yn rhoi manylion ynghylch pob maes gweithgaredd a blaenoriaeth fel sail ar gyfer paratoi, monitro a darparu'r cynlluniau hynny.

Trosolwg

Mae parhau i wella canlyniadau dysgwyr yng Nghymru yn dal i fod yn flaenoriaeth allweddol i Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith yn nodi'n glir ein bod am ddatblygu gwybodaeth sy'n bodoli eisoes am yr hyn sy'n gyfystyr â lleoliadau dysgu effeithiol er mwyn datblygu a gwella ein system addysg ymhellach. Mae Cymru'n Un, yr agenda flaengar ar gyfer Llywodraeth Cymru, yn ymrwmo Llywodraeth Cynulliad Cymru i roi addysg o'r radd flaenaf i blant a phobl ifanc Cymru a gweithio gyda darparwyr addysg, ymarferwyr a rhieni i greu'r ysgolion gorau posibl ar gyfer y dyfodol. Mae hyn yn galw am arloesedd o ran y ffordd o feddwl a'r ffordd o ymarfer ar bob lefel. Mae'r Gronfa Ysgolion Gwell yn rhoi cymorth penodol ychwanegol i ategu'r ymrwymïadau hyn gan gynorthwyo ysgolion ac awdurdodau lleol i ddatblygu mentrau newydd ac i arloesi.

Mae i grantiau a ddarperir gan y Gronfa Ysgolion Gwell derfynau amser. Y disgwyliad arferol yw y caiff pob maes gweithgaredd/blaenoriaeth ei werthuso o fewn cyfnod o dair blynedd a phan fydd angen cyllid yn barhaus, bydd yn cael ei drosglwyddo i Setliad Refeniw Awdurdodau Lleol yn unol â Phrotocol Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Grantiau gydag awdurdodau lleol.

Gall y Gronfa Ysgolion Gwell hefyd gael ei defnyddio i helpu ysgolion ac awdurdodau lleol i gymryd y camau gweithredu a amlinellwyd yn y Cynlluniau i Blant a Phobl Ifanc ac i helpu ysgolion i ymateb i adroddiadau arolygu Estyn, ar yr amod bod y defnydd o arian grant yn cyd-fynd â'r nodau a'r amcanion penodol a ddisgrifir yn y cylchlythyr hwn. Dylai Awdurdodau Lleol ystyried yr ystod lawn

o ffynonellau cyllid wrth ddatblygu eu cynlluniau o dan y Gronfa Ysgolion Gwell, a nodi sut y bydd gweithio'n agosach mewn partneriaeth ar draws ffiniau yn mynd i'r afael â gwella canlyniadau.

Dengys tystiolaeth fod gwaith diwygio addysgol fwyaf effeithiol pan gaiff ei gynllunio a'i weithredu mewn cydweithrediad ac mewn ffordd gydlynol ar bob lefel o'r system: yn genedlaethol, yn lleol ac ar lefel y lleoliad dysgu unigol. Mae Creu'r Cysylltiadau yn galw am gydweithredu ymhob gwasanaeth gan ganolbwyntio'n glir ar y dinesydd i gyflawni canlyniadau cyfannol. Mae cydweithredu ymhob gwasanaeth o fewn a rhwng awdurdodau lleol yn meithrin y gallu i ddod o hyd i atebion cyffredin i heriau. Mae hyn yn hynod bwysig wrth sicrhau mwy o degwch o ran perfformiad ac wrth dorri'r cysylltiad rhwng bod dan anfantais a chanlyniadau dysgu gwael.

Gwariant cymwys yn 2009-10

Bydd rhaglen y Gronfa Ysgolion Gwell ar gyfer 2009-10 yn cynnwys y meysydd gweithgaredd canlynol:

Gweithgaredd 1 Gwella Safonau a Chyflawniad

Gweithgaredd 2 Trefniadau Cwricwlwm ac Asesu Diwygiedig

Gweithgaredd 3 Cynorthwyo Disgyblion, Diogelu ac Amddiffyn Plant

Gweithgaredd 4 Cynhwysiant

Gweithgaredd 5 Iaith Pawb mewn Ysgolion

Gweithgaredd 6 TGCh mewn Ysgolion

Y ffactorau ysgogi allweddol sy'n sail i'r defnydd o'r grant hwn yn 2009-10, y dylid eu hadlewyrchu yng nghynlluniau gwariant Awdurdodau Lleol, yw:

- y fframwaith effeithiolrwydd ysgolion a'i gydrannau;
- codi safonau a gwella cyflawniad drwy strategaethau ysgol gyfan effeithiol a threialu dulliau gweithredu arloesol o gyflwyno pynciau penodol;
- paratoi staff ar gyfer y trefniadau cwricwlwm ac asesu diwygiedig;
- diogelu plant mewn addysg;

- cymhwyso'r gwersi a ddysgwyd o'r rhaglen Rhagori i fynd i'r afael ag effeithiau negyddol allgáu cymdeithasol ac anfantais economaidd-gymdeithasol ar bresenoldeb a chanlyniadau addysgol plant a phobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu hallgáu'n gymdeithasol, gan gynnwys y rhai o leiafrifoedd ethnig a phlant sy'n derbyn gofal;
- helpu i ddatblygu gwasanaethau o'r radd flaenaf i ddisgyblion ag anghenion addysgol ychwanegol;
- Iaith Pawb;
- gwneud y defnydd mwyaf effeithiol o dechnoleg er mwyn gwella dysgu ac addysgu.

Yn ogystal, disgwylir i'r elfennau canlynol fod yn sylfaen i'r gweithgareddau a gefnogir ar draws y rhaglen:

- Arweinyddiaeth, gan gynnwys ymrwymiad cyffredin i ragoriaeth;
- Gweithio Gydag Eraill gan gynnwys hyrwyddo cydweithio yn unol ag agenda "Creu'r Cysylltiadau" a Chynlluniau Plant a Phobl Ifanc;
- Rhwydweithiau Arferion Proffesiynol, gan gynnwys datblygu a rhannu arferion da;
- Ymyriad a Chymorth, gan gynnwys hyrwyddo arloesedd gan ddefnyddio amrywiaeth o strategaethau i wella perfformiad;
- Gwelliant ac Atebolrwydd, gan gynnwys annog dulliau o weithio drwy'r ysgol gyfan ac ymyrryd trawsgwricwlaidd i nodi gweithgarwch gwella;
- Cwricwlwm ac Addysgu, gan gynnwys dangos effaith mesurau a ategir gan grant ar wella effeithiolrwydd ymarferwyr a dulliau addysgu a dysgu;

Wrth lunio eu cynlluniau gwariant ar gyfer 2009-10, dylai Awdurdodau Lleol hefyd ystyried y negeseuon allweddol a geir yn Adroddiad Blynyddol Prif Arolygydd Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru 2006-07, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2008. Dylent hefyd fanteisio ar ganfyddiadau adroddiadau arolygu a thematig Estyn.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn cydnabod swyddogaeth allweddol ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd o ran codi safonau cyrhaeddiad ledled Cymru.

Gall grantiau a ddarperir gan y Gronfa Ysgolion Gwell gael eu defnyddio i roi cymorth i staff newydd eu penodi yn ogystal â rhai mwy profiadol, gan gynnwys y rhai sy'n gweithio ym maes Anghenion Addysgol Ychwanegol, a staff nad ydynt yn addysgu mewn ysgolion, os bydd yr hyfforddiant yn cefnogi amcanion y Gronfa. Mae gwariant ar hyfforddi llywodraethwyr yn gymwys am gymorth drwy'r rhaglen gan gyfeirio'n arbennig at y mesurau hynny sy'n cefnogi cynllunio ysgol gyfan.

Yn dilyn astudiaeth gwerth am arian gan Swyddfa Archwilio Cymru, gwnaeth Pwyllgor Archwilio Cynulliad Cenedlaethol Cymru nifer o argymhellion ym mis Gorffennaf 2006 ar gyfer gwella'r ffordd y gweinyddir y grant gan ystyried y cyngor gan Swyddfa Archwilio Cymru. Cyhoeddwyd ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r argymhellion hyn ar 22 Awst 2006 yn [http://www.wales.gov.uk/
assemblydata/N000000000000000000000000000046818.pdf](http://www.wales.gov.uk/assemblydata/N000000000000000000000000000046818.pdf)

- ymgynghorodd tîm y Gronfa Ysgolion Gwell ag Awdurdodau Lleol ym mis Mawrth 2007 ar yr argymhelliad i symud i gylch cynllunio tair blynedd ar gyfer cynllunio, cyllido a rheoli'r Gronfa Ysgolion Gwell cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Nid yw'n ymarferol cyflwyno hyn ar gyfer 2009-10 tra bo adolygiad o grantiau yn cael ei gynnal o fewn APADGOS a thrwy Lywodraeth Cynulliad Cymru yn ei chyfanrwydd. Caiff ei ystyried ar gyfer 2010-2011 a'r tu hwnt.
- mae pob Awdurdod Lleol wedi cael canllawiau'r Gronfa Ysgolion Gwell ar werthuso. Yn ystod 08-09 bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gweithio gyda'i phartneriaid awdurdod lleol i ddatblygu cod ymarfer ar ddefnyddio'r canllawiau hyn.

Newidiadau yn ystod y flwyddyn

Ceidw Llywodraeth Cynulliad Cymru yr hawl i newid y gofynion yn y rhan hon o'r cylchlythyr ac unrhyw rannau eraill ohono. Bydd unrhyw newidiadau yn dod i rym 28 diwrnod calendr ar ôl y dyddiad yr hysbysir Awdurdodau Lleol amdanynt.

Trefniadau Cyllido

Gwariant a gefnogir

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi y bydd yn darparu £36.94 miliwn (gros) o dan y trefniadau a'r amodau y ceir eu manylion yn y cylchlythyr hwn.

Cyfradd grant

Y gyfradd grant yn 2009-10 fydd 60% ar gyfer pob gweithgaredd.

Dyraniadau

Seilir dyraniadau ar fformiwla sy'n seiliedig ar ddangosyddion anghenion a luniwyd drwy ymgynghori ag Awdurdodau Lleol. Rhoddir manylion y fformiwla yn **Atodiad B**. Bydd y rhan fwyaf o ddyraniadau yn cael eu gwneud ar lefel gweithgaredd (nid blaenoriaeth) ac yn gyffredinol bydd gan Awdurdodau Lleol ac ysgolion y rhyddid i benderfynu ar y ffordd orau o gyflawni'r amcanion ar gyfer pob maes gweithgaredd gan ystyried anghenion ac amgylchiadau lleol.

Cadarnheir y dyraniadau terfynol ym mis **Ionawr 2009**, yn amodol ar gymeradwyo cynlluniau gwariant Awdurdodau Lleol, a chymeradwyo cyllideb Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer 2009-10. Mae cadarnhau'r dyraniadau terfynol hefyd yn dibynnu ar gael y data mwyaf diweddar o ran y Cyfrifiad Ysgolion Blyneddol ar Lefel Disgyblion, a gynhelir ym mis Ionawr bob blwyddyn fel arfer. Felly, mae'r tabl dyraniadau yn atodiad C yn y cylchlythyr hwn yn ddangosol yn unig, a bwriedir iddo helpu Awdurdodau Lleol i lunio eu cynlluniau gwariant.

Newidiadau i'r arian grant yn ystod 2009-10

Bydd y mesurau canlynol yn peidio â bod yn gymwys ar gyfer cymorth grant yn 2009-10:

- 1b Gwella Sgiliau Sylfaenol
- 2ch Datblygu Sgiliau Meddwl a Dysgu (a gynhwysir yng Ngweithgaredd 2c)
- 3c Blas am Oes

Bydd y blaenoriaethau hynny sydd yn eu trydedd flwyddyn o gyllid yn 2009-10 yn cael eu gwerthuso gyda'r nod o ddatblygu strategaethau ymadael priodol mewn ymgynghoriad ag Awdurdodau Lleol.

Mae'r tabl canlynol yn dangos y flwyddyn gyllid ar gyfer pob blaenoriaeth a gefnogir yn 2009-10:

Maes â Blaenoriaeth	Blwyddyn (uchafswm o 3)
1a - Pontio Effeithiol	1
1b - Mynd i'r afael â sgiliau sylfaenol	1
1c - Darparu ieithoedd tramor modern yng Nghyfnod Allweddol 2	2
2a - Cyfnod Sylfaen	3
2b - Cynorthwyo Asesiadau Athrawon	1
2c - Y cwricwlwm diwygiedig 3-19	3
3a - Hyrwyddo presenoldeb, ymddygiad cadarnhaol ac iechyd emosiynol	2
3b - Diogelu ac Amddiffyn Plant	2
4a - Codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant ar gynhwysiant a dyletswyddau penodol yn ymwneud â gwahaniaethu a chyfle cyfartal	3
4b - Gweithio mewn partneriaeth â rhieni	3
5a - Codi safonau yn yr iaith Gymraeg ymhob Cyfnod Allweddol	2
5b - Codi safonau mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy'r cwricwlwm	2
6a - Hunanadolygu TGCh	3
6b - Datblygu a rhannu arferion da	3

Costau gweinyddu'r rhaglen

Gall Awdurdodau Lleol gadw hyd at 4% (ond dim mwy na hynny) o'u dyraniad fformiwla yn ganolog ar gyfer pob maes gweithgaredd tuag at y costau gweinyddol y byddant yn mynd iddynt wrth ddatblygu a rheoli'r rhaglen.

Costau staff

Ni ddylid defnyddio'r Gronfa Ysgolion Gwell i ariannu costau staff parhaol i gyflawni tasgau nad ydynt yn cyd-fynd ag amcanion y Gronfa. Os nad yw Awdurdodau Lleol yn siŵr am wariant cymwys ar gostau staff (e.e. athrawon peripatetig neu secondiadau), dylent gysylltu â thîm y Gronfa Ysgolion Gwell.

Trefniadau trosglwyddo arian

Ar gyfer rhaglen 2009-10, mae'r trefniadau trosglwyddo canlynol yn berthnasol:

- Nid oes cyfyngiad penodol ar drosglwyddo arian i mewn i unrhyw faes gweithgaredd neu allan ohono yn ystod y cyfnod dyrannu dangosol.
- Dylai Awdurdodau Lleol nodi yn eu cynlluniau gwariant ar gyfer 2008-09 a ydynt yn bwriadu trosglwyddo unrhyw arian rhwng meysydd gweithgaredd a rhoi'r rhesymau dros hynny. Bydd y dyraniadau i Awdurdodau Lleol yn cael eu haddasu er mwyn adlewyrchu unrhyw drosglwyddiadau cymeradwy ar yr adeg hon.
- Mae gan Awdurdodau Lleol tan **20 Medi 2009** i hysbysu Tîm y Gronfa Ysgolion Gwell o unrhyw drosglwyddiadau pellach y maent wedi cytuno arnynt gyda'u hysgolion a'r sail resymegol y tu ôl i'r newidiadau hyn ynghyd â sicrwydd na fydd unrhyw newidiadau wedi hynny yn effeithio ar gyflawni cynlluniau gwariant y cytunwyd arnynt.
- Ni chaiff unrhyw drosglwyddiadau eu cymeradwyo ar ôl 20 Medi 2009.

Ceidw Llywodraeth Cynulliad Cymru yr hawl i ofyn i Awdurdodau Lleol am gynlluniau gwariant diwygiedig lle ymddengys y bydd y trosglwyddiadau a gynigir gan yr Awdurdod Lleol yn effeithio'n sylweddol ar gynlluniau gwariant cymeradwy. Anogir Awdurdodau Lleol i gysylltu â Thîm y Gronfa Ysgolion Gwell cyn gynted â phosibl er mwyn trafod unrhyw newidiadau arfaethedig i gynlluniau gwariant cymeradwy.

Dirprwyo cyllid i ysgolion

Mae'n rhaid i Awdurdodau Lleol gynnwys ysgolion wrth weithredu gweithgareddau a ariennir gan grant, gan gynnwys penderfyniadau ynghylch darparu gweithgareddau hyfforddi a chynorthwyo cymeradwy.

Mae'n ofynnol bod awdurdodau yn dirprwyo cyfran y cytunwyd arni o gyfanswm eu dyraniad ar sail fformiwla i ysgolion. Dylai'r Awdurdod Lleol ymgynghori â'i Fforwm Cyllidebau Ysgolion ar ei ddull gweithredu arfaethedig o ddirprwyo grantiau i ysgolion a hysbysu Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r cynlluniau ar y Ffurflen Ariannol a geir yn Atodiad D erbyn **18 Tachwedd 2008** fan bellaf. Mae'n rhaid hysbysu Tîm y Gronfa Ysgolion Gwell cyn gynted â phosibl os bydd amgylchiadau'n newid.

Dylai Awdurdodau Lleol ddatgan ar eu ffurflenni cais am grant (Atodiad D) y cyllid y maent am ei gadw'n ganolog neu ei ddirprwyo i ysgolion ar gyfer pob Maes Gweithgaredd. Dylent ystyried unrhyw drefniadau arbennig a all fod yn berthnasol i weithgareddau a blaenoriaethau unigol (amlinellir y rhain o dan y penawdau perthnasol yn **Atodiad A**). Dylai Awdurdodau Lleol nodi, lle bo cyllid yn cael ei gadw'n ganolog gan yr Awdurdod Lleol, na ddylai mwy na 4% gael ei ddefnyddio i reoli a monitro'r gweithgareddau hyn.

O dan Reoliadau Cyllideb Awdurdodau Lleol, Cyllidebau Ysgolion a Chyllideb Ysgolion Unigol (Cymru) 2003, mae'n rhaid i Awdurdod Lleol gynnwys yn ei gyllideb ysgolion lleol unrhyw wariant a delir gan grant o'r Gronfa Ysgolion Gwell a chyfraniad cyfatebol yr Awdurdod Lleol. Nid yw'n ofynnol i'r Awdurdod Lleol gynnwys y gwariant hwn yn ei gyllideb ar gyfer ysgolion unigol a ddosberthir drwy fformiwla i ysgolion.

Lle mae cyllid wedi'i ddirprwyo i ysgolion o dan y trefniadau hyn, bydd angen i ysgolion ddangos, drwy'r Awdurdod Lleol, eu bod yn cyflawni'r cyfrifoldeb a roddwyd iddynt o dan y rhaglen yn effeithiol. Dylai'r Awdurdod Lleol, mewn cydweithrediad â'i ysgolion, sefydlu trefniadau costeffeithiol priodol i wneud hyn. Dylai'r trefniadau hyn sicrhau bod ysgolion yn rheoli'r arian grant sydd wedi'i ddatganoli yn effeithiol ac yn ei ddefnyddio yn unol ag amcanion, blaenoriaethau ac amodau grant y rhaglen berthnasol. Yn benodol dylai ysgolion:

- gynhyrchu rhaglen flynyddol wedi'i chostio o weithgareddau hyfforddi a chynorthwyo a luniwyd i wireddu amcanion a nodwyd yn glir ym mhob un o'r Cynlluniau Datblygu Ysgol;
- cynnwys hyfforddiant yn systematig mewn cynlluniau datblygu blynyddol gan ystyried data a ddarparwyd yn adroddiad blynyddol Estyn ar safonau mewn ysgolion yng Nghymru, a gwybodaeth a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru am gyflawniadau plant 7, 11 a 14 oed yn Asesiadau'r Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer plant 7, 11 a 14 oed yn 2008 (Dros Dro);

- cymryd camau mewn cymaint o feysydd â blaenoriaeth perthnasol ag sy'n ymarferol o ystyried amgylchiadau ac anghenion lleol (gan roi sylw i Gynlluniau Datblygu Ysgol);
- monitro darpariaeth y rhaglen a gwariant yn unol â'r gyllideb;
- sicrhau bod copïau o'r rhaglenni blynyddol ar gael i'w harchwilio gan Arolygwyr Ysgolion, Swyddfa Archwilio Cymru a staff yr Awdurdod Lleol;
- rhoi'r wybodaeth sy'n ofynnol i'r Awdurdodau Lleol ar gyfer monitro'r rhaglen ynghyd â ffurflenni gwerthuso i Lywodraeth Cynulliad Cymru;
- sicrhau bod unrhyw danwariant tebygol yn cael ei roi yn ôl i'r Awdurdod Lleol cyn gynted â phosibl fel y gellir gwneud defnydd da ohono mewn man arall.

Caiff Awdurdodau Lleol dynnu'n ôl unrhyw gyllid a ddirprwywyd, yn llawn neu'n rhannol, oddi wrth ysgolion sy'n methu â chydymffurfio â'r gofynion uchod.

Gweithgareddau dysgu y tu allan i oriau ysgol

Mae Paragraff 52 o Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 2008 yn caniatáu i gyflogwyr wneud taliadau am gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu y tu allan i oriau ysgol y mae'r athro a'r pennaeth yn cytuno arnynt, neu, yn achos penaethiaid, y mae'r pennaeth a'r corff perthnasol yn cytuno arnynt.

Dywed y canllawiau a gyhoeddwyd gan yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd i gyd-fynd â'r Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 2008:

- y dylai cyrff perthnasol benderfynu a ddylid gwneud taliadau i athrawon sy'n cytuno i gymryd rhan mewn gweithgareddau dysgu y tu allan i oriau ysgol
- y dylai polisi cyflogau'r ysgol bennu lefel y taliad
- na ddylai taliadau i athrawon ystafell ddosbarth llawn amser ond gael eu gwneud mewn perthynas â'r gweithgareddau hynny a wneir y tu allan i'r amser cyfeiriedig o 1,265 awr
- y dylid cadw cofnod o'r holl gytundebau a'r taliadau sy'n ddyledus
- y dylai'r athro ddefnyddio ei sgiliau neu'i ddoethineb proffesiynol wrth gynnal unrhyw weithgareddau o'r fath.

Gall taliadau o'r fath gael eu cyllido o'r Gronfa Ysgolion Gwell ar yr amod:

- bod yr hyfforddiant yn unol â dibenion y grant
- bod y grant yn cynnwys cost athrawon cyflenwi ar gyfer hyfforddi fel gwariant cymwys
- nad ydynt wedi'u gwahardd yn benodol. Yn benodol:
 - (a) ni ddylid gwneud taliadau am hyfforddiant mewn swydd a ddilynir yn ystod yr amser cyfeiriedig o 1265 awr y disgwylir i athrawon dosbarth llawn amser eu gweithio
 - (b) dylid parhau i wneud unrhyw daliadau yn unol ag unrhyw ddarpariaethau diwygiedig i Ddogfen Cyflog ac Amodau Athrawon Ysgol 2008 a chanllawiau ategol yr Adran Plant, Ysgolion a Theuluoedd sy'n ei chefnogi neu unrhyw beth sy'n eu disodli.

Caffael TGCh

Dim ond i gefnogi caffael offer a gwasanaethau TGCh drwy Weithgaredd 6 - TGCh mewn Ysgolion y gellir defnyddio arian grant o'r Gronfa Ysgolion Gwell.

Talu'r grant

Telir y grant ar sail tri thymor yn cwmpasu'r cyfnodau sy'n dod i ben ar 31 Gorffennaf, 31 Rhagfyr a 31 Mawrth. Ceir crynodeb o'r trefniadau hawlio grant ar gyfer rhaglen 2009-10 yn y tabl isod. Bydd ffurflenni hawlio yn cael eu dosbarthu i ALLau fis cyn y dyddiad cau perthnasol gan amlaf. Bydd yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gyflwyno hawliadau grant yn dangos y gwir wariant yn erbyn pob maes gweithgaredd yn ogystal ag unrhyw drosglwyddiadau a weithredwyd.

Cyfnod yn dod i ben	Hawlio ar Ffurflen	Dyddiad hawlio olaf	Nodiadau
31 Gorffennaf 2009	BSF1 (2009-10)	30 Medi 2009	Gwir wariant
31 Rhagfyr 2009	BSF2 (2009-10)	31 Ionawr 2010	Gwir wariant
31 Mawrth 2010	BSF3E (2009-10)	15 Mawrth 2010	Amcangyfrif o wariant

Dim ond am wariant cymwys yr eir iddo (neu amcangyfrif o'r hyn yr eir iddo) y gellir talu grant yn unol â thelerau'r grant yn ystod y flwyddyn ariannol yn dod i ben ar 31 Mawrth 2010.

Bydd gwariant y Gronfa Ysgolion Gwell yn parhau i fod yn rhwym wrth ardystiad archwilio allanol a rhoddir ffurflen hawlio grant diwedd y flwyddyn (BSF3F [2009-10]) i Awdurdodau Lleol fel mewn blynyddoedd blaenorol. Fodd bynnag, telir y grant yn llawn ar sail yr hawliadau amcangyfrifedig a gyflwynir ym mis Mawrth 2010. Caiff y dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r ffurflen 3F (archwiliedig) ei gadarnhau ym mis Ionawr 2009.

Adennill/Adfachu

Ceidw Llywodraeth Cynulliad Cymru yr hawl ar unrhyw adeg i adennill y grant, yn llwyr neu'n rhannol, i'r graddau na chaiff ei ddefnyddio at y diben(ion) cymwys neu os bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru o'r farn nad yw rhai o amodau neu delerau eraill y grant yn cael eu cyflawni.

Ni ellir talu grant mewn perthynas â gwariant yr aethpwyd iddo ar ôl 31 Gorffennaf 2009 hyd nes y daw tystysgrif yr archwilydd am y flwyddyn ariannol flaenorol i law.

Rhaid cyflwyno hawliadau grant yn brydlon erbyn y dyddiad cau penodol. Bydd tîm y Gronfa Ysgolion Gwell yn anfon nodyn atgoffa i Awdurdodau Lleol wythnos cyn y dyddiad cau. Byddwn yn cadw'r hawl i wrthod talu unrhyw hawliadau hwyr, a rhaid i bob un ohonynt gynnwys llythyr esboniadol oddi wrth y Cyfarwyddwr Addysg neu swyddog cyfatebol.

Os bydd Awdurdodau Lleol yn cael anawsterau a fydd yn effeithio ar hawliadau am daliadau, dylent gysylltu â thîm y Gronfa Ysgolion Gwell cyn gynted â phosibl.

Monitro a rhagolwg ariannol

Mae'n bwysig sicrhau bod yr holl adnoddau grant yn cael eu defnyddio mewn modd amserol ac effeithiol. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn monitro'r gwariant alldro ar y Gronfa Ysgolion Gwell yn fanwl drwy gydol y flwyddyn ac efallai y bydd angen cysylltu ymhellach ag Awdurdodau Lleol ynghylch materion sy'n debygol o effeithio ar ffigurau gwariant cyffredinol am y flwyddyn. Er mwyn hwyluso'r broses hon, mae'n ofynnol i Awdurdodau Lleol gyflwyno amlinelliad cywir o ragolygon gwariant ar gyfer pob tymor yn y ffurflen cais am grant yn **Atodiad D**.

Monitro a Gwerthuso Perfformiad

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymedig i ddatblygu'r Gronfa Ysgolion Gwell fel rhaglen ar sail tystiolaeth. Rydym felly yn disgwyl i Awdurdodau Lleol ac ysgolion sicrhau bod y gwariant yr eir iddo yn cael ei dargedu'n effeithiol ac y ceir gwerth am arian. Dylent sefydlu trefniadau cynllunio, monitro a gwerthuso cost effeithiol at y diben hwn, gan ystyried Gwerth Gorau a gofynion eraill.

Bydd yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gyflwyno cynlluniau gwariant manwl ar gyfer 2009-10 sy'n amlinellu'n glir (a chan ddefnyddio'r ffurflenni a ddarperir) yr wybodaeth ganlynol:

- Disgrifiad o'r hyfforddiant arfaethedig a'r mesurau eraill i'w darparu o dan bennawd pob maes gweithgaredd
- Targedau Gwybodaeth Reoli wedi'u cwblhau ar gyfer 2009-10 a ffigurau alldro amcangyfrifedig ar gyfer 2008-09
- Trefniadau monitro a gwerthuso arfaethedig ar gyfer 2009-10
- Manylion ynghylch gwaith gwerthuso a wnaed yn ystod blynyddoedd blaenorol gan gynnwys:
 - pa gasgliadau y daethpwyd iddynt/pa wersi a ddysgwyd;
 - pa newidiadau sydd wedi'u gwneud mewn perthynas â gweithgareddau arfaethedig yn 2009-10 o'r herwydd;
 - pa drefniadau y bydd Awdurdodau Lleol yn eu gwneud er mwyn sicrhau bod arferion da/mentrau newydd a gefnogir gan y Gronfa Ysgolion Gwell yn cael eu cynnwys mewn dysgu ac addysgu prif ffrwd.

Mae hefyd yn ofynnol i Awdurdodau Lleol gyflwyno ffurflenni wedi'u cwblhau yn dangos yr Wybodaeth Reoli derfynol o ran alldro ar gyfer 2008-09, ynghyd ag adolygiad cryno, erbyn **05 Mehefin 2009** fan bellaf. Caiff yr wybodaeth hon ei hystyried wrth gynllunio rhaglenni yn y dyfodol.

Rhoddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru ganllawiau i Awdurdodau Lleol ac ysgolion ym mis Mai 2007 sef **Gwerthuso'r Gronfa Ysgolion Gwell** (Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif : WAGC 14/2007). Dylai Awdurdodau Lleol ystyried y canllawiau hyn wrth baratoi eu cynlluniau gwariant ac wrth fonitro a gwerthuso gwariant gyda'u hysgolion. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymgynghori'n ymhellach â chynrychiolwyr awdurdodau lleol ac ysgolion yn ystod 2008-09 ar brotocol i weithredu'r canllawiau gwerthuso.

Gwybodaeth Arall

Creu'r Cysylltiadau

Yn unol â'r egwyddorion a nodir yn "Creu'r Cysylltiadau: Gwell Gwasanaethau i Gymru" (2004) a'r ymrwymïadau a nodir yn y Cynllun Gweithredu "Cyflawni'r Cysylltiadau" (2005), anogir Awdurdodau Lleol i ystyried cyfleoedd i gydweithredu yn y gwaith o gynllunio a chyflwyno mesurau a gefnogir gan y Gronfa Ysgolion Gwell. Dylent hefyd ystyried casgliadau Adolygiad Beecham o Ddarparu Gwasanaethau a gyflwynwyd ym mis Gorffennaf 2006.

Os bydd Awdurdodau Lleol yn penderfynu gweithio mewn consortia i ddarparu hyfforddiant penodol a chefnogi gweithgareddau neu brosiectau, gallant wneud trefniant ymhlith ei gilydd lle mae un Awdurdod Lleol yn gwneud cais am gymeradwyo gwariant, yn cyflogi unrhyw staff sy'n gysylltiedig â hynny ac yn hawlio grant, tra bo gweddill yr Awdurdodau Lleol yn cyfrannu at yr elfen o wariant nas cwmpesir gan y grant. Fel arall, efallai y byddai'n well ganddynt fod pob Awdurdod Lleol yn gyfrifol am ran o'r gwariant gyda phob un yn hawlio grant yn dilyn Cynlluniau Gwariant ar wahân neu gydgyllun wedi'i gymeradwyo gan Lywodraeth Cynulliad Cymru. Mae'r naill drefniant neu'r llall yn dderbyniol, ond rhaid iddo gael ei nodi'n glir yn y cynlluniau gwariant.

Dulliau arloesol a ffynonellau cyllid eraill

Anogir Awdurdodau Lleol ac ysgolion i chwilio am gyfleoedd i gydweithio ag asiantaethau eraill, Partneriaethau Busnes Addysg, cyflogwyr a noddwyr eraill i ddatblygu gweithgareddau neu arbenigeddau addysgol gwerth chweil, a lle bo'n bosibl roi hwb i ddarpariaeth grant drwy gyfraniadau gan y partneriaid hynny. Fodd bynnag, ni ddylai gweithgareddau a gefnogir gan y Gronfa Ysgolion Gwell ailadrodd na disodli'r rhai sydd eisoes wedi'u cyllido o adnoddau eraill yr Awdurdod Lleol neu grantiau eraill Llywodraeth Cynulliad Cymru. Dylent fod yn ychwanegol at weithgareddau tebyg a gyllidir drwy ffynonellau eraill gan eu hategu a'u hatgyfnerthu. Ni ddylai Awdurdodau Lleol ddefnyddio unrhyw gyllid a gânt drwy grantiau penodol eraill y llywodraeth i dalu eu cyfraniad i'r Gronfa Ysgolion Gwell.

Ymholiadau

Dylai Awdurdodau Lleol sicrhau bod darparwyr gwasanaeth presennol y Gronfa Ysgolion Gwell, a'r rhai sy'n mynegi diddordeb mewn bod yn ddarparwr, yn cael gwybod am y cylchlythyr hwn. Mae copïau ar gael oddi wrth Dîm y Gronfa Ysgolion Gwell, Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau Llywodraeth Cynulliad Cymru neu o <http://www.cymru.gov.uk>.

Dylid cyfeirio ymholiadau ynghylch cynnwys cyffredinol y cylchlythyr hwn, trefniadau ariannol, amodau a gweithdrefnau'r rhaglen at:

Tîm y Gronfa Ysgolion Gwell
Yr Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau
Llywodraeth Cynulliad Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ
Ffôn: 029 2082 6008
Ffacs: 029 2082 6016
E-bost: cronfaysgoliongwell@wales.gsi.gov.uk

Dylid cyfeirio ymholiadau am feysydd gweithgaredd a meysydd â blaenoriaeth penodol (ond nid materion cyllid na throsglwyddo) at y swyddogion cyswllt a enwir ar ddiwedd pob maes gweithgaredd yn **Atodiad A**.

Atodiad A

Gweithgaredd 1: Gwella Safonau a Chyflawniad

Blaenoriaethau ar gyfer 2009-10

- A Pontio Effeithiol
- B Mynd i'r Afael â Sgiliau Sylfaenol
- C Darparu leithoedd Tramor Modern yng Nghyfnod Allweddol 2

Nodau

Codi safonau a gwella cyflawniad drwy:

- ddatblygu a gweithredu trefniadau i gefnogi parhad a dilyniant o ran dysgu disgyblion sy'n symud i'r Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol yn ogystal â rhyngddynt. Fel yn 2008-09 mae ffocws penodol ar weithredu i wella'r broses o bontio rhwng Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3
- gwella nifer y disgyblion â sgiliau darllen, ysgrifennu a rhifedd da
- darparu iaith dramor fodern yng Nghyfnod Allweddol 2.

Bydd gweithgarwch o dan y flaenoriaeth hon yn cyfrannu at waith a nodwyd yn y Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion o dan yr elfen Cwricwlwm ac Addysgu i hyrwyddo addysgu o ansawdd uchel fel conglfaen perfformiad addysgol effeithiol. Wrth fynd i'r afael â'r tri Maes Blaenoriaeth dylai Awdurdodau Lleol ac ysgolion ystyried sut y gellir gwella ansawdd a safonau drwy gael ymarferwyr i gydweithio o fewn a rhwng ysgolion a lleoliadau dysgu eraill fel y gellir rhannu a chymhwyso arferion da yn eang i wella sgiliau a gwybodaeth. Hefyd, dylai Awdurdodau Lleol ac ysgolion geisio mynd i'r afael â materion sy'n deillio o'r gwerthusiad allanol o'r rhaglen Rhagori, gyda'r nod o ymdrin yn fwy effeithiol â'r cysylltiad rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol a thangyflawniad disgyblion.

Blaenoriaeth 1a: Pontio Effeithiol

Amcan

Cefnogi'r gwaith a wneir mewn ysgolion, drwy weithio mewn partneriaeth, o ddatblygu dulliau gweithredu effeithiol o gyflwyno'r cwricwlwm fel bod parhad a dilyniant o ran dysgu disgyblion sy'n symud i'r Cyfnod Sylfaen a Chyfnodau Allweddol yn ogystal â rhyngddynt. Mae hyn yn cynnwys trefniadau manwl ar gyfer rhannu gwybodaeth am gyflawniadau ac anghenion dysgu disgyblion ac

ystyried y ffordd orau o drefnu dulliau addysgu a dysgu, asesu, olrhain cynnydd disgyblion a threfniadaeth y cwricwlwm i wella'r broses o bontio.

Fel yn 2008-09 mae ffocws penodol ar wella'r broses o bontio rhwng Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3. Yn arbennig dylai cynlluniau Awdurdodau Lleol nodi sut y byddant yn ymdrin â'r meysydd i'w gwella a nodwyd gan Estyn mewn adroddiad a gyhoeddwyd ym mis Mehefin 2008 "Effaith cynlluniau trosglwyddo". Daw'r adroddiad hwnnw i'r casgliad er bod gan y rhan fwyaf o gystyrau drefniadau da i reoli a chydgysylltu'r broses o bontio, fod cynlluniau pontio statudol cychwynnol yn amrywio'n sylweddol o ran ansawdd. Mae hefyd yn cynnwys nifer o astudiaethau achos sy'n dangos arferion da mewn meysydd allweddol gan gynnwys cynllunio'r broses o bontio, datblygu'r cwricwlwm a sgiliau, gwella ansawdd addysgu, dysgu ac asesu a gwerthuso effaith cynlluniau ar ganlyniadau dysgwyr. Mae'r adroddiad yn nodi wyth maes i'w gwella y dylai ysgolion eu hystyried. Yn ogystal ceir tri argymhelliad ar gyfer Awdurdodau Lleol.

Ysgolion:

- Sicrhau bod cynlluniau pontio yn cynnwys amcanion clir a blaenoriaethau penodol ar gyfer gwelliannau yn y byrdymor a'r hirdymor.
- Sicrhau bod cynlluniau pontio yn cynnwys blaenoriaethau cenedlaethol a lleol.
- Sicrhau y gellir gwerthuso effaith y cynllun gan gyfeirio at welliannau o ran dysgu a safonau cyflawniad disgyblion.
- Mewn clystyrau ystyried gorchmynion diwygiedig y cwricwlwm cenedlaethol, y fframwaith sgiliau a dogfennau cysylltiedig i sicrhau ymagwedd gyson tuag at weithredu gofynion newydd yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3.
- Ystyried cynnig dull mwy integredig o gyflwyno'r cwricwlwm yng Nghyfnod Allweddol 3 sy'n adeiladu ar y ffordd mae disgyblion yn dysgu yn yr ysgol gynradd.
- Rhoi blaenoriaeth i asesu grwpiau clwstwr a chymedroli gwaith disgyblion yn unol â chyflwyno gofynion statudol yn ystod 2008-2010.
- Mewn cynlluniau pontio rhoi mwy o sylw i ddiwallu anghenion grwpiau penodol o ddysgwyr, gan gynnwys disgyblion mwy abl a dawnus, bechgyn, disgyblion â sgiliau sylfaenol gwael.

- Ffurfioli trefniadau i roi ystyriaeth lawn i farn disgyblion, rhieni a llywodraethwyr pan adolygant eu cynlluniau pontio.

Awdurdodau Lleol:

- Sicrhau bod y broses o bontio yn cael llawer iawn o sylw yn eu gwaith ar wella ysgolion.
- Monitro ansawdd ac effaith cynlluniau pontio'n fwy agos.
- Rhoi cymorth i glystyrau i wella cynlluniau pontio diffygiol.

Gwariant cymwys

- Hyfforddiant i athrawon ac aelodau eraill o staff er mwyn gwella parhad a dilyniant drwy'r cyfnod pontio o ran dysgu.
- Costau sy'n gysylltiedig â staff o ysgolion partner yn dod ynghyd i wella trefniadau pontio.
- Datblygu deunydd a gynhyrchir yn lleol i gefnogi trefniadau pontio gwell.
- Cyflogau a chostau cynhaliaeth staff wedi eu secondio i brosiectau i wella'r broses o bontio.
- Prynu deunyddiau i'w defnyddio i wella agweddau penodol ar y broses o bontio.
- Costau sy'n gysylltiedig â'r broses o rannu ac ymgorffori arferion da: er enghraifft, drwy lunio astudiaethau achos a darparu gweithdai a chynadleddau i ymarferwyr.

Gall arian grant gael ei ddefnyddio hefyd i ddarparu hyfforddiant yn erbyn y penawdau hyn ar gyfer staff mewn ysgolion arbennig a staff peripatetig.

Gwybodaeth arall

Mae'r cyhoeddiadau canlynol yn berthnasol i weithgareddau cynllunio o dan y maes blaenoriaeth hwn:

- Effaith cynlluniau pontio. Gwerthuso'r defnydd o gynlluniau pontio gan bartneriaethau ysgolion cynradd ac uwchradd i wella ansawdd dysgu a safonau. (Estyn Mehefin 2008).
- Canllawiau ar baratoi Cynlluniau Pontio Cyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3. Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 30/2006.

- Anelu at Ragoriaeth yng Nghyfnod Allweddol 3: Symud Ymlaen... Pontio Effeithiol o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3. Cynhyrchwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac Estyn (2004).
- Anelu at Ragoriaeth yng Nghyfnod Allweddol 3: Cynllunio pontio - Cyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3. Cyfres o 2 fideo ynghyd â llyfrynnau a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac Estyn mewn partneriaeth â BBC Cymru (2004).
- Anelu at Ragoriaeth yng Nghyfnod Allweddol 3: Defnyddio unedau pontio yn effeithiol. Cynhyrchwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac Estyn (2004).
- Anelu at Ragoriaeth yng Nghyfnod Allweddol 3: Symud Ymlaen... Gwella Dysgu. Pontio Effeithiol o Gyfnod Allweddol 2 i Gyfnod Allweddol 3. Cynhyrchwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac Estyn (2004).
- Anelu at Ragoriaeth yng Nghyfnod Allweddol 3, dogfen drafod ar y cyd a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru, ac Estyn (2002).

Blaenoriaeth 1b: Mynd i'r Afael â Sgiliau Sylfaenol

Amcanion

Mynd i'r afael â'r lefel sylweddol o dangyflawni o ran sgiliau sylfaenol llythrennedd a rhifedd o fewn cyfnodau allweddol ac ar eu traws.

Er y byddem yn disgwyl i Awdurdodau Lleol roi sylw arbennig i ddatblygu sgiliau darllen ac ysgrifennu, dylai'r grant gael ei ddefnyddio i adlewyrchu'r angen i fynd i'r afael â rhifedd yn ogystal â llythrennedd yn arbennig lle bo dadansoddiad ynghylch data am berfformiad ac anghenion yn lleol yn dangos bod angen sylweddol.

Mae'r angen i fynd i'r afael â thangyflawni mewn rhifedd a llythrennedd mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn hanfodol. Mae ffocws penodol yn 2009-10 ar helpu ysgolion mewn partneriaeth ag awdurdodau lleol i adolygu a datblygu ymagwedd ysgol gyfan tuag at hyrwyddo darllen ac ysgrifennu o'r blynyddoedd cynnar hyd at Gyfnod Allweddol 3. Yn ogystal, dylid talu sylw i fentrau a dargedir at ddisgyblion nad ydynt yn gwneud cystal â'u cyfoedion yng Nghyfnodau 1 a 2 a'r angen i sicrhau y parheir i roi cymorth yng Nghyfnod Allweddol 3.

Comisiynwyd Estyn gan Lywodraeth Cynulliad Cymru i lunio cyngor ar addysgu darllen ac ysgrifennu. Mae'r adroddiad cyntaf **"Gwella dysgu ac addysgu Medrau Darllen Cynnar"** (2007) yn tanlinellu'r angen i bob ysgol ddefnyddio strategaethau sy'n cynnwys gwybodaeth ffonig a graffig, adnabod geiriau, gwybodaeth ramadegol a dealltwriaeth gyd-destunol.

Mae'r ail adroddiad sy'n fwy diweddar **"Arfer orau mewn darllen ac ysgrifennu disgyblion 7 i 14 oed"** (2008) yn darparu trosolwg o safonau yn y Gymraeg a'r Saesneg yng nghyfnodau allweddol 2 a 3 ac yn nodi arferion da a allai wella dysgu ac addysgu darllen ac ysgrifennu ymhellach. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi dosbarthu copïau o'r adroddiad hwnnw i bob ysgol yng Nghymru â disgyblion Cyfnod Allweddol 2 a Chyfnod Allweddol 3, ac i awdurdodau lleol, i ystyried canfyddiadau ac argymhellion Estyn.

Yn ogystal mae adroddiad Estyn **"Cau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched mewn ysgolion"** (2008) yn pwysleisio'r angen i fynd i'r afael â sgiliau llythrennedd bechgyn. Mae'r adroddiad annibynnol **"Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb"** (2008) a gyhoeddwyd yn ddiweddar yn argymhell na ddylai unrhyw blentyn (ym mhrif ffrwd yr ystod gallu) adael yr ysgol gynradd heb y gallu gweithredol i ddarllen ac ysgrifennu. Adlewyrchir yr adroddiadau hyn yn y blaenoriaethau a nodwyd yn y strategaeth Sgiliau Sylfaenol Cenedlaethol **"Geiriau'n Galw - Rhifau'n Cyfri,"** sy'n mynd lawr yn llaw â'r blaenoriaethau a nodwyd ac a ariannwyd drwy'r Gronfa Ysgolion Gwell.

Mae adroddiadau Estyn hefyd ar gael ar wefan yr Arolygiaeth (www.estyn.gov.uk)

Dylai adnoddau a ddarperir o dan y flaenoriaeth hon gael eu defnyddio i sicrhau bod gan ysgolion strategaethau effeithiol ar waith ar gyfer darllen ac ysgrifennu, ac yn arbennig ar gyfer adnabod a chynorthwyo disgyblion sydd ar eu hôl hi o ran eu sgiliau sylfaenol, gan gynnwys rhifedd. Gallai hyn cynnwys cymorth i ddisgyblion sydd ar eu hôl hi o ran eu sgiliau rhifedd ddal i fyny. Dylai'r pwyslais fod ar ddull gweithredu trawsgwricwlaidd ac, felly, ni ddylai gael ei gyfyngu i Gymraeg, Saesneg a Mathemateg. Dylai hyn fod yn gyson â'r argymhellion a wnaed gan Estyn, e.e.

- rhoi blaenoriaeth uchel i wella darllen ac ysgrifennu drwy sicrhau bod yr ysgol gyfan yn ymrwymo i safonau uchel

- gwella'r cymorth a roddir ym maes ysgrifennu, yn enwedig disgyblion llai abl
- defnyddio tystiolaeth asesu a marcio'n fwy effeithiol - o ran llythrennedd a rhifedd
- canolbwyntio ar wella sgiliau llythrennedd bechgyn, o gyfnodau cynharaf yr ysgol ac yn arbennig yn y cyfnod pontio cynradd ac uwchradd
- dod o hyd i ffyrdd o ddiwallu anghenion dysgu disgyblion unigol drwy olrhain eu cynnydd a thargedu cymorth yn y meysydd y mae ei angen fwyaf.

Comisiynwyd Estyn i gynnal astudiaeth bellach yn ystod 2008-09 o ymagweddau effeithiol tuag at ddarllen ac ysgrifennu ar gyfer plant rhwng 5 a 7 oed. Cyhoeddir yr adroddiad hwnnw ym mis Mawrth 2009.

Gwariant cymwys:

- Adolygu a datblygu strategaethau ysgol gyfan i wella sgiliau sylfaenol gan roi sylw penodol i ddarllen ac ysgrifennu.
- Gweithgareddau i helpu i gyflawni a chadw'r Nod Ansawdd Sgiliau Sylfaenol.
- Costau sy'n gysylltiedig â staff o ysgolion partner yn dod ynghyd i wella strategaethau ysgol gyfan a rhannu arferion da.
- Datblygu deunydd a gynhyrchir yn lleol i gefnogi strategaethau dysgu ac addysgu.
- Cyflogau a chostau cynhaliaeth staff sydd wedi eu secondio i brosiectau.
- Prynu adnoddau i fynd i'r afael â thangyflawniad ym meysydd darllen ac ysgrifennu sy'n targedu disgyblion nad ydynt yn cyflawni cystal â'u cyfoedion megis:
 - rhaglenni dal i fyny
 - gweithgareddau sy'n targedu pobl ifanc wedi ymddieithrio
 - rhoi cymorth y tu allan i oriau i ddisgyblion
- Mesurau i gau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched.

- Cymorth wedi'i dargedu ar gyfer disgyblion sydd ar eu hôl hi o ran eu sgiliau rhifedd yng Nghyfnod Allweddol 2 a rhaglenni ymyrryd i ddisgyblion â sgiliau rhifedd gwael wrth fynd yn eu blaen i Gyfnod Allweddol 3.
- Cymorth wedi'i dargedu ym meysydd darllen ac ysgrifennu i bobl ifanc sydd mewn perygl a throseddwyr ifanc.

Gellir defnyddio cyllid hefyd i ddarparu hyfforddiant yn erbyn y penawdau hyn ar gyfer staff mewn ysgolion arbennig a staff peripatetig.

Gwybodaeth Arall

Fel rhan o'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion, a gyhoeddwyd ym mis Chwefror 2008, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gyfrifol am ddatblygu ac adolygu'r cwricwlwm cenedlaethol a'i asesu fel ei fod yn berthnasol i bob dysgwr ac yn gallu ymgysylltu â hwy. Canolbwyntir ar sgiliau, yn enwedig ym meysydd allweddol datblygu llythrennedd, sgiliau meddwl, cyfathrebu, rhifedd a TGCh. Mae'r Flaenoriaeth hon felly yn cydymffurfio ag elfen Cwricwlwm ac Addysgu'r Fframwaith.

Mae'r cwricwlwm ysgol diwygiedig a weithreidir o fis Medi 2008 yn cydnabod pwysigrwydd darllen ac ysgrifennu fel sail i ddysgu drwy'r cwricwlwm. Felly, mae'r canllawiau sydd ar droed ar gyfer y Gymraeg a'r Saesneg yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 yn cynnwys canllawiau penodol i ysgolion ar ddatblygu sgiliau ym meysydd darllen, ysgrifennu a llafaredd yng nghyd-destun addysgu'r Gymraeg a'r Saesneg.

Mae'r Fframwaith ar gyfer Dysgu Plant 3 i 7 mlwydd oed yng Nghymru yn tynnu sylw at y ffaith bod plant yn cael eu trwytho mewn profiadau a gweithgareddau iaith. Dylent gael cyfleoedd i ddewis a defnyddio deunyddiau darllen, deall confensiynau deunydd print a llyfrau a chael ystod eang o gyfleoedd i fwynhau profiadau marcio ac ysgrifennu.

Mae'r Fframwaith Sgiliau newydd hefyd yn darparu canllawiau ar barhad a dilyniant wrth ddatblygu sgiliau meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif dysgwyr rhwng 3 a 19 oed. Mae'r adran ar sgiliau cyfathrebu yn ystyried sut y gellir datblygu llafaredd, darllen, ysgrifennu a sgiliau cyfathrebu ehangach drwy'r cwricwlwm.

Yn ogystal, fel un elfen o'r ail Strategaeth Sgiliau Sylfaenol Genedlaethol, "Geiriau'n Galw - Rhifau'n Cyfri," a gyhoeddwyd yn ystod 2005, darparwyd arian i bob awdurdod lleol, drwy gyfrwng rhaglen o **Grantiau Ymyrryd Strategol**, i gefnogi datblygu rhaglen arloesol o weithgareddau i wella sgiliau sylfaenol. Yn ogystal mae'r Strategaeth Sgiliau Sylfaenol yn darparu **Grantiau Hyfforddi** i athrawon fel eu bod mewn sefyllfa well i fynd i'r afael ag anghenion llythrennedd disgyblion sy'n tangyflawni o ran eu darllen a'u hysgrifennu. Gellir defnyddio'r Gronfa Ysgolion Gwell hefyd i ategu camau eraill sy'n cael eu hyrwyddo gan yr Asiantaeth Sgiliau Sylfaenol wrth weithredu **Geiriau'n Galw - Rhifau'n Cyfri.**"

Diffinnir sgiliau sylfaenol fel y gallu i ddarllen, ysgrifennu a siarad Cymraeg a Saesneg, a defnyddio mathemateg ar lefel sydd ei hangen i weithredu a datblygu yn y gwaith ac yn y gymdeithas.

Dylai dulliau o wella llythrennedd pobl ifanc hefyd ystyried canfyddiadau cynnar y gwerthusiad allanol o'r rhaglen Rhagori, sy'n cyfeirio at yr angen i ymdrin â'r ffaith bod plant o gefndiroedd dan anfantais yn aml yn meddu ar lefelau is o ddatblygiad a chymhelliant gwybyddol.

Mae'r cyhoeddiadau canlynol yn berthnasol i weithgareddau cynllunio o dan y Flaenoriaeth hon:

- Arferion gorau mewn darllen ac ysgrifennu disgyblion 7 i 14 oed (Estyn 2008)
- Cau'r bwlch rhwng cyrhaeddiad bechgyn a merched mewn ysgolion (Estyn 2008)
- Gwella Dysgu ac Addysgu Medrau Darllen Cynnar (Estyn, 2007)
- Fframwaith Sgiliau, (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007)
- Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu (Llywodraeth Cynulliad Cymru 2008)
- "Geiriau'n Galw - Rhifau'n Cyfri" - Strategaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru i Wella Llythrennedd a Rhifedd Sylfaenol yng Nghymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2005).
- Anelu at Ragoriaeth yng Nghyfnod Allweddol 3: Codi safonau llythrennedd a rhifedd, cyfres o 2 fideo ynghyd â llyfrynnau a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac Estyn mewn partneriaeth â BBC Cymru (2003)

- ‘Gwneud y Cysylltiad’ - canllawiau’r cwricwlwm ar waith llythrennedd yn y Gymraeg, Saesneg ac mewn leithoedd Tramor Modern (ACCAC, 2003, mae’r swyddogaethau bellach yn rhan o’r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau).
- Anelu at Ragoriaeth yng Nghyfnod Allweddol 3, dogfen drafod ar y cyd a gynhyrchwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac Estyn (2002).
- Sgiliau ar draws y Cwricwlwm (ACCAC, 2002, mae’r swyddogaethau bellach yn rhan o’r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau).
- Adroddiad Prosiect Ymchwil ar bolisiau iaith ysgol gyfan yn Ysgolion Uwchradd Cymru (ACCAC, 1999, mae’r swyddogaethau bellach yn rhan o’r Adran Plant, Addysg, Dysgu Gydol Oes a Sgiliau).
- Codi Safonau Llythrennedd mewn Ysgolion Cynradd: Fframwaith ar gyfer gweithredu (y Swyddfa Gymreig / SPAEM 1998).

Blaenoriaeth 1c: Darparu iaith dramor fodern yng Nghyfnod Allweddol 2

Amcan

Rhoi’r cyfle i ysgolion cynradd, gan weithio mewn partneriaeth ag ysgolion uwchradd, ddarparu iaith dramor fodern yng Nghyfnod Allweddol 2.

Fel y nodir yn y strategaeth genedlaethol ar gyfer dysgu iaith **leithoedd sy’n Cyfrif** mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymedig i wella’r cyfleoedd ar gyfer dysgu ieithoedd tramor modern.

I fynd i’r afael â hyn, mae CILT Cymru gyda chyllid gan Lywodraeth Cynulliad Cymru wedi bod yn treialu’r ddarpariaeth o ieithoedd tramor modern yng Nghyfnod Allweddol 2 gyda 118 o ysgolion cynradd ynghyd â’r 18 o ysgolion uwchradd cysylltiedig ledled Cymru ers 2003.

Daeth gwerthusiad annibynnol o’r rhaglenni peilot i’r casgliad:

- bod brwdfrydedd mawr dros ddysgu iaith ym Mlwyddyn 6 gyda disgyblion yn mwynhau’r profiad a rhieni yn croesawu’r cyfle i’w plant ddechrau dysgu iaith dramor fodern

- bod dull gweithredu yn seiliedig ar siarad a gwrando yn sail gadarn i ddenu diddordeb pobl ifanc a darparu'r sylfeini ar gyfer dysgu a dilyniant pellach wrth fynd ymlaen i addysg uwchradd
- yn seiliedig ar ganllawiau CILT Cymru o isafswm o 19 awr o addysgu yn ystod y flwyddyn ysgol, bod athrawon cynradd yn gallu cynnwys addysgu iaith dramor fodern a dechrau creu cysylltiadau â meysydd eraill o ddysgu iaith a phynciau megis daearyddiaeth a hanes
- i ysgolion uwchradd nodi'r disgyblion a oedd yn gysylltiedig â'r rhaglen beilot ddechrau Blwyddyn 7 gyda brwdfrydedd dros ieithoedd tramor modern a'r wybodaeth a'r sgiliau i wneud cynnydd cyflym i fynd i'r afael â chwricwlwm Cyfnod Allweddol 3.

Er y gallai nifer o ddulliau gweithredu gael eu defnyddio i gyflawni hyn, daeth y gwerthusiad i'r casgliad mai'r un mwyaf effeithiol oedd cydweithio rhwng clwstwr o ysgolion cynradd yn gweithio gydag ysgol uwchradd bartner. O ganlyniad i hyn, roedd yr ysgolion cynradd yn gallu gwneud y defnydd gorau o arbenigedd ac adnoddau'r ysgolion uwchradd ac roedd yn darparu sail effeithiol ar gyfer parhad mewn dysgu wrth i ddisgyblion symud ymlaen i Flwyddyn 7.

Ar y sail hon cytunwyd y dylid sicrhau bod adnoddau ar gael yn y Gronfa Ysgolion Gwell i alluogi ysgolion cynradd i ddarparu ieithoedd tramor modern ar sail anstatudol o fis Medi 2008. Gan ddefnyddio'r gwerthusiad dylai darpariaeth o'r fath:

- fod yn seiliedig ar y fframwaith anstatudol ar gyfer darparu ieithoedd tramor modern yng Nghyfnod Allweddol 2 a gyhoeddwyd fel rhan o leithoedd tramor modern yng Nghwricwlwm Cenedlaethol Cymru, 2008
- cael ei dargedu i ddechrau at Flwyddyn 6 er y byddai ysgolion efallai am ystyried cyflwyno darpariaeth o'r fath ar oedran cynharach
- bod yn seiliedig ar glystyrau o ysgolion cynradd yn gweithio mewn partneriaeth ag ysgol uwchradd i wneud y defnydd gorau o adnoddau ac arbenigedd a darparu ar gyfer parhad mewn dysgu wrth symud i Flwyddyn 7
- canolbwyntio ar wella'r trefniadau pontio, gan gyfeirio at y canllawiau anstatudol 'Croesi Pontydd' a gynhyrchwyd gan ACCAC yn 2005

- gwneud y defnydd gorau o TGCh i ategu'r hyn a gyflwynir er enghraifft drwy'r defnydd o rwydweithiau TGCh a fideo-gynadledda.

Gwariant cymwys

- Hyfforddiant i athrawon ac aelodau eraill o staff er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflwyno ieithoedd tramor modern yng Nghyfnod Allweddol 2.
- Costau sy'n gysylltiedig â staff o ysgolion partner yn dod ynghyd i adolygu a gwella addysgu a dysgu ieithoedd tramor modern yng Nghyfnod Allweddol 2 ac yn y dilyniant i Gyfnod Allweddol 3.
- Datblygu deunydd a gynhyrchir yn lleol i ategu trefniadau pontio gwell ar gyfer ieithoedd tramor modern.
- Cyflog a chynhaliath staff, gan gynnwys staff ysgolion uwchradd yn cefnogi'r gwaith o gyflwyno ieithoedd tramor modern mewn ysgolion cynradd.
- Prynu deunyddiau i'w defnyddio i wella agweddau penodol ar ddysgu ieithoedd tramor modern.

Gall arian grant gael ei ddefnyddio hefyd i ddarparu hyfforddiant yn erbyn y penawdau hyn ar gyfer staff mewn ysgolion arbennig a staff peripatetig.

Gwybodaeth arall

Gall CILT Cymru roi cyngor ar bob agwedd ar addysgu ieithoedd tramor modern ac yn benodol ar ddarpariaeth yng Nghyfnod Allweddol 2. Argymhellir felly, fod awdurdodau lleol ac ysgolion yn ymgynghori â CILT Cymru i ddatblygu darpariaeth o'r fath. Gall CILT Cymru roi cyngor hefyd ar gyfrifo costau. Er enghraifft, daeth y gwerthusiad o raglenni peilot Cyfnod Allweddol 2 i'r casgliad bod y £1500 a ddarparwyd ar gyfer pob ysgol gynradd (gydag arian cyfatebol oddi wrth yr ysgol, y clwstwr neu'r AALI), a £400 ar gyfer ysgolion uwchradd i dalu gorbenion yn cynnwys cyfarfodydd, yn ddigonol i gyflwyno iaith dramor fodern lle roedd yn cael ei datblygu a'i chyflwyno gydag ysgolion partner. Awgrymir felly y dylid mabwysiadu'r ffigur hwn fel pwynt cyfeirio ar gyfer dyrannu grant i ddarparu ieithoedd tramor modern yng Nghyfnod Allweddol 2.

Gellir cysylltu â CILT Cymru yn y cyfeiriad canlynol: Llawr 1af, Adeiladau'r Cambrian, Sgwâr Mount Stuart, Caerdydd, CF10 5FL, 029 2048 0137 neu drwy wefan y Ganolfan yn www.ciltcymu.org.uk.

Ceir y diffiniad o iaith dramor fodern yn y ddogfen newydd ar leithoedd Tramor Modern yn y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru 'sef leithoedd Ewropeaidd neu leithoedd y byd megis Almaeneg, Arabeg, Ffrangeg, Mandarin, Rwseg, Sbaeneg, Siapaneg ac Wrddw. Caiff ysgolion ddewis pa leithoedd maent yn eu haddysgu gan ystyried y galw, diddordeb, llwybrau cynnydd ac adnoddau.'

Mae'r cyhoeddiadau canlynol yn berthnasol i weithgareddau cynllunio o dan y Flaenoriaeth hon:

leithoedd sy'n Cyfrif, Y Strategaeth Genedlaethol ar gyfer leithoedd Tramor Modern yng Nghymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2002).

leithoedd Tramor Modern yn y Cwricwlwm Cenedlaethol yng Nghymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2008). Caiff y fframwaith anstatudol ar gyfer Cyfnod Allweddol 2 ei gynnwys fel atodiad i'r ddogfen honno.

Dechrau'r Daith: Canllawiau ar gyfer Cyflwyno Iaith Dramor Fodern yng Nghyfnod Allweddol 2 (CILT Cymru Tymor yr Hydref 2008).

Sicrhau bod leithoedd yn Cyfrif (CILT Cymru Gorffennaf 2008)

Gwerthuso prosiectau peilot leithoedd Tramor Modern Cyfnod Allweddol 2 (Uned Pobl a Gwaith/Llywodraeth Cynulliad Cymru, 2007).

Manylion Cyswllt Gweithgaredd 1

Blaenoriaethau 1a ac 1c

Tegwen Harrison

Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu

Ffôn: 029 2082 6251

Blaenoriaeth 1b

Toni Schiavone

Yr Is-adran Dysgu Gydol Oes a Darparwyr

Ffôn: 01745 860167

Gweithgaredd 2: Trefniadau Cwricwlwm ac Asesu Diwygiedig

Blaenoriaethau ar gyfer 2009-10

- A Cyfnod Sylfaen
- B Cynorthwyo Asesiadau Athrawon
- C Y Cwricwlwm Diwygiedig 3-19

Nodau

Cefnogi gwaith parhaus ysgolion o ran cynllunio a gweithredu'r cwricwlwm diwygiedig i blant a phobl ifanc 3-19 oed, a fydd yn weithredol o fis Medi 2008 ymlaen.

Cefnogi gwaith ysgolion o weithredu cwricwlwm sy'n seiliedig ar sgiliau ac sy'n canolbwyntio ar y dysgwr, gan gyfeirio at y fframwaith sgiliau, a datblygu sgiliau meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif drwy'r cwricwlwm.

Cefnogi'r broses o ddatblygu'r cwricwlwm er mwyn sicrhau ei fod yn ymdrin yn briodol ag anghenion a dyheadau pobl ifanc, gan gynnwys y rhai o gefndiroedd dan anfantais economaidd-gymdeithasol, a chymdeithas gyfan.

Cefnogi'r broses o ddatblygu arferion da a'u rhannu, a hyrwyddo addysgu a dysgu effeithiol i blant 3-19 oed.

Cefnogi staff ysgol i weithredu ystod ehangach o opsiynau cwricwlwm, yn enwedig mewn partneriaeth â lleoliadau dysgu eraill ac ar gyfer Llwybrau Dysgu 14-19, gan ddefnyddio ystod ehangach o ddulliau.

Cefnogi a gwella'r datblygiad o weithdrefnau asesiadau arsylwi ac asesiadau athrawon ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 1, a phontio i Gyfnod Allweddol 2.

Cefnogi gofynion i atgyfnerthu a sicrhau asesiadau athrawon yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 drwy weithdrefnau safoni a chymedroli o fewn ysgolion ac ar sail grwpiau clwstwr.

Cefnogi gofynion mewn perthynas â pharhau i gyflwyno dull cymedroli allanol o dystiolaeth sampl ar sail pwnc o asesiadau

athrawon a dilysu systemau a gweithdrefnau yng Nghyfnod Allweddol 3.

Cefnogi ac atgyfnerthu prosesau addysgu ac asesu Cymraeg ail iaith yng Nghyfnod Allweddol 2.

Cefnogi ymgysylltiad ysgolion â'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion.

Blaenoriaeth 2a: Y Cyfnod Sylfaen

Amcanion

Cefnogi ysgolion i gyflwyno a datblygu'r Cyfnod Sylfaen, gan gynnwys ymgysylltu â Fframwaith y Cyfnod Sylfaen, canllawiau APADGOS a Phecyn Hyfforddi Cenedlaethol y Cyfnod Sylfaen.

Nod y Cyfnod Sylfaen yw datblygu awydd cadarnhaol mewn plant i ddysgu a sgiliau siarad, gwrando a chyfathrebu cryfach a mwy datblygedig.

Gwariant cymwys:

- Rheoli'r gwaith o gynllunio ar gyfer y Cyfnod Sylfaen a'i gyflwyno.
- Hyfforddiant ar gyfer athrawon a chynorthwyr dosbarth, yn seiliedig ar Becyn Hyfforddi Cenedlaethol Cyfnod Sylfaen Llywodraeth Cynulliad Cymru, sy'n cwmpasu pob agwedd ar gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen gan gynnwys:
 - yr addysgeg sydd ei hangen i gyflwyno'r saith Maes Dysgu
 - cynllunio gweithgareddau addysgu a dysgu ar gyfer y Cyfnod Sylfaen
 - datblygu sgiliau plant drwy chwarae a chymryd rhan
 - asesu drwy arsylwi
 - cofnodi canlyniadau asesiadau a chyflwyno adroddiadau arnynt
 - dysgu awyr agored a defnyddio amgylchedd yr awyr agored
 - ymyrryd yn gynnar ac anghenion dysgu ychwanegol
 - arweinyddiaeth o ran dysgu
 - pontio.

Gwybodaeth arall

Dylai Awdurdodau Lleol, yn eu cynlluniau gwariant, roi gwybodaeth am faint o'u dyraniad ar gyfer Gweithgaredd 2 (£4.6m) a gaiff ei wario ar y Cyfnod Sylfaen.

Anogir Awdurdodau Lleol i sicrhau bod staff ysgolion yn cael yr hyfforddiant (fel yr amlinellwyd uchod) a bod digon o arian ar gael o'r tu mewn i'r maes gweithgaredd hwn (neu'n cael ei drosglwyddo iddo) i gefnogi'r hyfforddiant hwn.

Blaenoriaeth 2b: Cynorthwyo Asesiadau Athrawon

Amcanion

Cefnogi a gwella'r gwaith o ddatblygu gweithdrefnau asesiadau arsylwi ac asesiadau athrawon ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, Cyfnod Allweddol 1, a phontio i Gyfnod Allweddol 2.

Cefnogi'r gwaith parhaus o gynnal trefniadau safoni mewnol cadarn a gweithdrefnau cymedroli ar gyfer asesiadau athrawon yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3 a gweithdrefnau cymedroli grwpiau clwstwr. Gwella systemau a phrosesau ysgolion Cyfnod Allweddol 3 sy'n gysylltiedig â gweithdrefnau cymedroli a dilysu allanol; datblygu a rhannu arferion da mewn asesiadau athrawon yn enwedig mewn perthynas â Chymraeg ail iaith yng Nghyfnod Allweddol 2, cymedroli trawsgyfnod i gefnogi'r broses bontio ac ymgysylltu â'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion.

Cefnogi paratodau ysgolion ar gyfer asesiadau yn erbyn y cwricwlwm ysgol diwygiedig a'i bwyslais cynyddol ar sgiliau.

Gwariant cymwys:

- Costau yn ymwneud â chefnogi sgiliau asesu ac arsylwi athrawon yn y Cyfnod Sylfaen ac yng Nghyfnod Allweddol 1.
- Datblygu a pharhau i adolygu systemau cadarn ar gyfer asesiadau athrawon dibynadwy o bynciau craidd/nad ydynt yn graidd yng Nghyfnodau Allweddol 2 a 3, gan gynnwys gwella systemau a gweithdrefnau i gefnogi'r gofyniad i gofnodi'n fewnol asesiad athrawon diwedd Cyfnod Allweddol 2 o Gymraeg ail iaith o haf 2010 (gweler hefyd Gweithgaredd 5 iaith Pawb mewn Ysgolion).

- Gofynion Cyfnod Allweddol 2 a 3 ar gyfer ysgolion o ran gweithredu systemau a gweithdrefnau cadarn ar gyfer safoni/ cymedroli asesiadau athrawon yn fewnol a chymedroli clwstwr Cyfnod Allweddol 2/3 o ran cyrhaeddiad dysgwyr.
- Datblygu a gweithredu cynlluniau ysgolion i fynd i'r afael ag unrhyw feysydd gweithredu a amlygwyd o ganlyniad i waith cymedroli grwpiau clwstwr Cyfnod Allweddol 2/3 a/neu adroddiadau cymedrolwyr/dilyswyr allanol Cyfnod Allweddol 3 i ysgolion.
- Paratoadau ar gyfer asesiadau yn erbyn y cwricwlwm ysgol diwygiedig a'i bwyslais cynyddol ar sgiliau, gan gynnwys codi ymwybyddiaeth a defnyddio deunyddiau asesu sgiliau dewisol newydd gan APADGOS (ar gyfer Datblygu Sgiliau Meddwl, Cyfathrebu a Rhif gyda dysgwyr Blwyddyn 5).
- Costau sy'n deillio o gysylltiadau rhwng ysgolion, gan gynnwys trafnidiaeth.
- Cyflogau a chostau cynhaliaeth staff wedi eu secondio.
- Hyfforddi athrawon a staff gweinyddol o ran sefydlu gweithdrefnau cadarn ar gyfer defnyddio TGCh yn effeithiol wrth gofnodi, cyfnewid a chyflwyno adroddiadau ar ddata asesiadau athrawon.

Gwybodaeth arall

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi cyhoeddi'r canllawiau canlynol i gefnogi asesiadau athrawon:

Sicrhau cysondeb o ran asesiadau athrawon - canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3 (Gwanwyn 2008).

Blaenoriaeth 2c - Y Cwricwlwm Diwygiedig 3-19

Amcanion

Cefnogi gwaith parhaus ysgolion o ran cynllunio a gweithredu'r cwricwlwm diwygiedig i blant a phobl ifanc 3-19 oed, o fis Medi 2008 hyd at 2011.

Cefnogi gwaith ysgolion o weithredu cwricwlwm sy'n fwy seiliedig ar sgiliau ac sy'n canolbwyntio mwy ar y dysgwr, gan gyfeirio at y fframwaith sgiliau, a datblygu sgiliau meddwl, cyfathrebu, TGCh a rhif.

Cefnogi ymagweddau ysgol gyfan tuag at ddatblygu sgiliau meddwl ac asesu ar gyfer dysgu.

Cefnogi'r gwaith o ddatblygu a rhannu arferion da, a hyrwyddo strategaethau addysgu a dysgu effeithiol ar gyfer plant a phobl ifanc 3 - 19 oed.

Cefnogi'r broses o ddatblygu a rhannu arferion da i gyflwyno rhaglenni galwedigaethol ehangach ar gyfer pobl ifanc 14-19 oed fel rhan o Lwybrau Dysgu 14-19.

Darparu cymorth a hyfforddiant arbenigol o ran addysg rhyw a pherthnasoedd i athrawon fel yr argymhellir yn adroddiadau Estyn ar Addysg Rhyw a Pherthnasoedd a gyhoeddwyd yn 2005 a 2008.

Gwariant cymwys

Mesurau i helpu staff i weithredu'r cwricwlwm diwygiedig ac i gynllunio gweithgareddau addysgu a dysgu ar gyfer:

- y Cyfnod Sylfaen
- y cwricwlwm cenedlaethol 7-14 diwygiedig
- Llwbrau Dysgu 14-19
- Addysg Bersonol a Chymdeithasol 7-19
- Gyrfaoedd a'r Byd Gwaith 11-19
- Addysg Grefyddol 3-19
- datblygu a rhannu strategaethau addysgu a dysgu effeithiol ar gyfer plant a phobl ifanc 3-19 oed
- hyfforddi athrawon ac aelodau eraill o staff gyda'r nod o wella sgiliau meddwl a dysgu a/neu asesu ar gyfer dysgu
- costau athrawon yn rhannu arferion da, drwy rwydweithiau o fewn ysgolion neu rhyngddynt, gwaith arsylwi, hyfforddiant
- datblygu deunydd a gynhyrchir yn lleol i gefnogi'r gwaith o ddatblygu sgiliau meddwl a dysgu a/neu asesu ar gyfer dysgu
- cyflogau staff wedi eu secondio i brosiectau i wella sgiliau meddwl a dysgu
- prynu adnoddau i'w defnyddio i wella agweddau penodol ar sgiliau meddwl a dysgu a/neu asesu ar gyfer dysgu
- datblygu hawl TGCh yng Nghyfnod Allweddol 4

- hyfforddiant yn seiliedig ar y *cwricwlwm i bob dysgwr*
- hyfforddiant a chymorth arbenigol i athrawon o ran addysg rhyw a pherthnasoedd.

Gwybodaeth arall

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wrthi'n cyhoeddi canllawiau i gefnogi'r gwaith o weithredu'r cwricwlwm diwygiedig gan gynnwys:

Canllawiau ar y Cyfnod Sylfaen

Trosolwg Dysgu Chwarae/Gweithredol i blant 3-7 oed

Arsylwi Plant

Addysgeg Dysgu ac Addysgu

Datblygiad Personol a Chymdeithasol, Lles ac Amrywiaeth
Diwylliannol

Sgiliau Iaith, Llythrennedd a Chyfathrebu

Datblygiad Mathemategol

Datblygu'r Gymraeg

Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r Byd

Datblygiad Corfforol

Datblygiad Creadigol.

Canllawiau'r cwricwlwm cenedlaethol

Saesneg: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3

Cymraeg: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3

Cymraeg Ail iaith: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3

Ieithoedd tramor modern: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau
Allweddol 2 a 3

Mathemateg: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3

Gwyddoniaeth: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3

Technoleg gwybodaeth a chyfathrebu: Canllawiau ar gyfer
Cyfnodau Allweddol 2 a 3

Dylunio a thechnoleg: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau
Allweddol 2 a 3

Hanes: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3

Daearyddiaeth: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3
Celf a dylunio: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3
Cerddoriaeth: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3
Addysg gorfforol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3.

Fframwaith sgiliau ar gyfer dysgwyr 3 i 19 oed yng Nghymru

Manteisio i'r eithaf ar ddysgu - gweithredu'r cwricwlwm diwygiedig

Cwricwlwm i bob dysgwr

Addysg grefyddol: Canllawiau ar gyfer Cyfnodau Allweddol 2 a 3
ac 14-19

Gwefan gyfarwyddyd addysg bersonol a chymdeithasol:
newydd.cymru.gov.uk/psesub/home/?lang=cy

Gyrfaoedd a byd gwaith: canllawiau atodol

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn ariannu rhaglen ar gyfer Datblygu Sgiliau Meddwl ac Asesu ar gyfer Dysgu. Gellir cael manylion am y rhaglen, ynghyd â phoster sy'n crynhoi canfyddiadau interim y rhaglen ar gyfer ysgolion, AALLau a sefydliadau Addysg a Hyfforddiant Cychwynnol Athrawon, yn adran y Cwricwlwm ac Asesu ar wefan y Cynulliad www.newydd.cymru.gov.uk/?lang=cy

Manylion Cyswllt Gweithgaredd 2

Gweithgaredd 2a

Jon Hawkins
Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu
Ffôn: 029 2082 6528

Blaenoriaeth 2b

Robert Bailey
Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu
Ffôn: 029 2037 5484

Blaenoriaeth 2c

Adrienne Rees / Eleri Davies
Yr Is-adran Cwricwlwm ac Asesu
Ffôn: 029 2037 5420 / 5551

Gweithgaredd 3: Cynorthwyo Disgyblion, Diogelu ac Amddiffyn Plant

Blaenoriaethau ar gyfer 2009-10

A Hyrwyddo Presenoldeb, Ymddygiad Cadarnhaol Ac Iechyd Emosiynol

B Diogelu ac Amddiffyn Plant

Blaenoriaeth 3a: Hyrwyddo Presenoldeb, Ymddygiad Cadarnhaol ac Iechyd Emosiynol

Nodau

Datblygu rhaglen o brosiectau arloesol wedi'u targedu sy'n ategu'r canllawiau yng Nghylchlythyr Cyfarwyddyd 47/2006 "Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion" ac sy'n gyson â phroses gynllunio addysgol AALLau a Chynlluniau Plant a Phobl Ifanc Awdurdodau Lleol.

Codi safonau cyrhaeddiad disgyblion dan anfantais a disgyblion o gymunedau difreintiedig.

Gwella presenoldeb yn yr ysgol a lleihau nifer y disgyblion sy'n cael eu gwahardd o'r ysgol.

Codi ymwybyddiaeth staff ysgolion a staff gwasanaethau addysg a'u galluogi i weithredu'n briodol er mwyn diogelu a hyrwyddo lles plant, gan gynnwys eu hiechyd emosiynol.

Gwariant Cymwys

- Hyfforddiant i gefnogi ysgolion a'u partneriaid i hyrwyddo presenoldeb a rheoli ymddygiad, gan ddilyn canllawiau yn "Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion" a defnyddio tystiolaeth o'r Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb (NBAR).
- Gweithgareddau i ddatblygu cymunedau dysgu o fewn ffiniau awdurdodau lleol ac ar eu traws.
- Hyfforddiant i gefnogi ysgolion yn y gwaith o ddatblygu dulliau gweithredu ysgol gyfan o fynd i'r afael â bwlio, gan gyfeirio'n arbennig at hyfforddiant mewn cymhwyso dull asesu'r polisi gwrth-fwlio a chanllawiau newydd ar fwlio homoffobig, hiliol a gwefwlio a bwlio plant ag ADY.

- Datblygu trefniadau i fonitro a gwerthuso effeithiolrwydd y ddarpariaeth y tu allan i'r ysgol, gan gynnwys monitro lleoliad a chynnydd disgyblion unigol.
- Datblygu trefniadau ar gyfer sefydlu a datblygiad proffesiynol parhaus ar gyfer y Gwasanaeth Lles Addysg, gan adlewyrchu argymhellion Adolygiad SCYA o'r Gwasanaeth Lles Addysg yng Nghymru (2006).
- Datblygu dulliau o gefnogi rhieni plant a phobl ifanc sydd wedi dadurthio, gan gynnwys:
 - ymyrraeth gynnar gyda rhieni disgyblion oedran cynradd
 - gwaith allgymorth teuluol
 - gwaith i gefnogi cyflwyno a gweithredu gorchmynion rhianta a chontractau rhianta
 - mynd i'r afael â bylchau yn y gefnogaeth i rieni plant yn eu harddegau
 - codi ymwybyddiaeth o broblemau presenoldeb gyda rhieni.
- Hyfforddiant mewn dulliau llythrennedd emosiynol i gefnogi pob disgybl, a datblygu rhaglenni llythrennedd emosiynol ysgol gyfan, gan fod ynghlwm wrth ddatblygu dulliau newydd o ddarparu cyngor mewn ysgolion drwy'r strategaeth genedlaethol.
- Hyfforddiant i gyrff llywodraethu wrth gymhwyso'r broses wahardd a nodir yng Nghylchlythyr Cyfarwyddyd 1/2004, ac wrth ddatblygu dulliau gweithredu ysgol gyfan o ran ymddygiad a phresenoldeb, fel yr amlinellir yn Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion.

Gellir hefyd ddefnyddio cyllid i ddarparu hyfforddiant i staff ac eithrio athrawon sydd ynghlwm wrth strategaethau i wella presenoldeb ac ymddygiad yn yr ysgol a darparu ar gyfer disgyblion sydd wedi'u gwahardd.

Dylid cynnwys rhieni, disgyblion a lle bo'n briodol, asiantaethau lleol wrth gynllunio a gweithredu pob gweithgaredd.

Gwybodaeth arall

Mae Cylchlythyr Cynulliad Cenedlaethol Cymru 23/2003: "Parchu Eraill" yn nodi canllawiau'r Cynulliad ar ddyletswyddau statudol ac arferion da wrth fynd i'r afael â bwlio. Ceir canllawiau ar atal gwaharddiadau ac ymdrin â hwy, gan gynnwys ailintegreiddio,

yng Nghylchlythyr 1/2004: "Gwahardd o Ysgolion ac Unedau Cyfeirio Disgyblion".

Mae Cylchlythyr Cyfarwyddyd 47/2006: 'Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion' yn cwmpasu cynhwysiant a chymorth dysgwyr oedran ysgol gorfodol (er y bydd rhai elfennau yn gymwys i bob dysgwr). Mae'n rhoi cyngor ac yn nodi cyfrifoldebau am gynnal lefelau uchel o bresenoldeb ac ymddygiad cadarnhaol mewn ysgolion a'r angen i gefnogi disgyblion ag anghenion ychwanegol i sicrhau eu bod yn cael addysg addas ac nad ydynt yn cael eu hymddieithrio o addysg. Mae hefyd yn cwmpasu addysg a ddarperir y tu allan i'r ysgol.

Mae Adroddiad yr Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ac a gyhoeddwyd ym mis Mai 2008, yn cynnwys 92 o argymhellion i wella ymddygiad a phresenoldeb mewn ysgolion yng Nghymru. Bydd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn datblygu cynllun gweithredu mewn ymateb i'r adroddiad ond yn y cyfamser mae'r wybodaeth yn yr Adroddiad yn darparu gwybodaeth gefndir ddefnyddiol i ysgolion, awdurdodau lleol a'u partneriaid.

Lle bo'n briodol, dylid cyfeirio at y canlynol:

- Adolygiad o Gofrestru Electronig (Llywodraeth Cynulliad Cymru)
- Adolygiad o'r Gwasanaeth Lles Addysg yng Nghymru (Llywodraeth Cynulliad Cymru)
- Asesiad o Bolisiau Gwrth-fwlio Ysgolion (Llywodraeth Cynulliad Cymru)
- Gwasanaethau Cyngori mewn Ysgolion yng Nghymru - Strategaeth Genedlaethol
- Adroddiad yr Adolygiad Cenedlaethol o Ymddygiad a Phresenoldeb (NBAR) (Llywodraeth Cynulliad Cymru)
- Effaith Rhagori: Adroddiad interim ar ôl y 18 mis cyntaf (Estyn)
- Gwerthusiad o Rhagori: Adroddiad Interim (Uned Pobl a Gwaith)
- Rhagori: Llawlyfr Gwerthuso i Ysgolion (Llywodraeth Cynulliad Cymru)
- Adolygiad o Arfer da mewn Strategaethau Gwrth-fwlio mewn Ysgolion yng Nghymru (Estyn)
- Gwella Presenoldeb - Arfer Da wrth Fynd i'r Afael â Phroblemau Presenoldeb (Estyn)

- Ymddygiad yng Nghymru - Arfer Da wrth Reoli Ymddygiad Heriol (Estyn)
- "Colli Allan" (Adroddiad y Comisiwn Archwilio)

Blaenoriaeth 3b: Diogelu ac Amddiffyn Plant

Amcanion

Diogelu a hyrwyddo lles plant.

Mae amddiffyn plant yn rhan o ddiogelu a hyrwyddo lles. Mae'n ymwneud â'r camau a gymerir i amddiffyn plant penodol sy'n dioddef niwed sylweddol, neu mewn perygl o ddioddef niwed sylweddol, o ganlyniad i gam-driniaeth neu esgeulustod.

Mae Cylchlythyr Llywodraeth Cynulliad Cymru Rhif: 05/2008: "Diogelu Plant mewn Addysg: Rôl awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu o dan Ddeddf Addysg 2002" yn nodi'r seilwaith a'r trefniadau y mae angen i awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu eu hystyried fel rhan o'u trefniadau statudol newydd i ddiogelu a hyrwyddo lles plant. Nodir pwysigrwydd gwaith rhngasiantaethol a hyfforddiant amserol i gefnogi'r egwyddorion hyn yn *"Diogelu Plant: Gweithio gyda'n Gilydd o dan Ddeddf Plant 2004"* ac ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru i Adroddiad Clywch y Comisiynydd Plant.

Gwariant cymwys

Mae'r Gweithgaredd hwn yn cefnogi mentrau sy'n:

- hyrwyddo'r canlyniadau gwell a fwriedir ar gyfer lles plant a phobl ifanc a nodir yn y 'Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion', yn enwedig o fewn yr elfen 'Gweithio gydag Eraill'
- darparu ar gyfer hyfforddiant, gan gynnwys hyfforddiant rhngasiantaethol ac amlasiantaethol, i bob aelod o staff y gwasanaeth addysg i'w galluogi i nodi dangosyddion cam-drin neu esgeulustod
- darparu hyfforddiant ar sut i roi gwybod am bryderon neu amheuan ac i bwysu y dylid rhoi gwybod am hyn yn unol â threfniadau a sefydlwyd gan eu Bwrdd Lleol Diogelu Plant neu Weithdrefnau Amddiffyn Plant Cymru Gyfan

- darparu hyfforddiant ar gyfer staff amddiffyn plant penodedig awdurdodau lleol ac ysgolion ar gynnal cyswllt effeithiol â'r Bwrdd Lleol Diogelu Plant ac asiantaethau perthnasol o fewn cyd-destun mesurau diogelu yn yr ysgol
- arwain at ddatblygu a gweithredu polisiau, gweithdrefnau a systemau sydd wedi'u cynllunio i gadw plant a phobl ifanc yn ddiogel
- darparu ar gyfer hyfforddiant i gefnogi'r camau gweithredu a gymerir mewn ymateb i argymhellion Clywch a'r canllawiau a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru
- darparu ar gyfer hyfforddiant i gynorthwyo'r broses o weithredu Ysgolion Bro a Dysgu y Tu Allan i Orlau, er mwyn cefnogi'r fenter Rhagori i hyrwyddo cyfiawnder cymdeithasol mewn addysg.

Gwybodaeth arall

Mae *"Diogelu Plant mewn Addysg"* a gyhoeddwyd ym mis Ebrill 2008 yn amlinellu dylestwydd statudol awdurdodau lleol a chyrff llywodraethu pob ysgol i gael trefniadau i arfer eu swyddogaethau gyda'r nod o ddiogelu a hyrwyddo lles plant.

Mae'r canllawiau yn cynnig cyngor ar sefydlu a chynnal trefniadau o'r fath y caiff ysgolion eu gwerthuso yn eu herbyn o dan Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn.

Fel rhan o'r fframwaith hwnnw, dylai arolygwyr werthuso a oes gan ysgol weithdrefnau effeithiol ar gyfer diogelu plant a phobl ifanc. Bydd hyn yn dangos pa mor dda y mae pob aelod o staff yn deall ei rôl o fewn yr ysgol ac yn cysylltu ag asiantaethau partner ar gyfer diogelu plant.

Manylion Cyswllt Gweithgaredd 3

Blaenoriaeth 3a

Graham Davies

Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr

Ffôn: 029 2082 6897

Blaenoriaeth 3B

Nicky Mills

Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr

Ffôn: 029 2082 3677

Gweithgaredd 4: Cynhwysiant

Blaenoriaethau ar gyfer 2009-2010

- A Codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant ar gynhwysiant a dyletswyddau penodol yn ymwneud â gwahaniaethu a chyfle cyfartal
- B Gweithio mewn partneriaeth â rhieni

Nodau

Nod y gweithgaredd hwn yw sicrhau bod ystod o ddarpariaeth a chymorth ar waith ymhob ysgol ac ALI yng Nghymru i ddiwallu anghenion dysgwyr ag anghenion ychwanegol. Ei nod yw gwella arfer wrth ddatblygu dulliau sy'n cefnogi cynhwysiant ac yn codi safonau ar gyfer grwpiau o ddysgwyr dan anfantais.

Gwybodaeth Arall

Mae "Y Wlad sy'n Dysgu" ac "Y Wlad sy'n Dysgu - Gweledigaeth ar Waith" yn uniongyrchol yn hyrwyddo addysg gynhwysol ac yn nodi agenda ar gyfer addysg yng Nghymru sy'n ymgorffori'r egwyddorion canlynol:

- Rhaid cael safonau a disgwyliadau uchel, ynghyd â gwelliannau cynyddol mewn canlyniadau i bob dysgwr.
- Mae buddiannau dysgwyr yn bwysicach na phob ystyriaeth arall.
- Rhaid cydnabod rhwystrau i ddysgu a'u goresgyn yn gyson.
- Rhaid rhoi'r un parch i lwybrau dysgu academaidd, technegol a galwedigaethol.
- Rhaid cau'r bwlch o ran anghydraddoldebau mewn cyflawniad rhwng ardaloedd, grwpiau ac unigolion breintiedig a difreintiedig er lles pawb.

Mae'r term anghenion dysgu ychwanegol yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion gydag ystod amrywiol o anghenion y mae angen cymorth wedi ei dargedu arnynt i'w galluogi i fanteisio ar gyfleoedd addysgol a chyflawni eu potensial (cyfeiriwch at Ganllawiau Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion 2006). O bosibl, mae llawer o grwpiau o ddisgyblion a allai gael eu nodi fel rhai sydd ag anghenion dysgu ychwanegol y mae angen mynd i'r afael â hwy. Fodd bynnag, ymhlith y prif grwpiau i'w hystyried yn y maes gweithgaredd hwn mae:

- disgyblion o grwpiau duon a lleiafrifoedd ethnig gan gynnwys y rhai sy'n dysgu Saesneg fel iaith ychwanegol
- plant teuluoedd yn ceisio lloches neu sydd â statws ffoaduriaid/ plant ar eu pennau eu hunain yn ceisio lloches
- sipsiwn a theithwyr
- disgyblion ag anghenion addysgol arbennig fel y'u diffinnir yng Nghod Ymarfer AAA Cymru
- disgyblion anabl
- disgyblion mwy galluog a thalentog
- y rhai sy'n derbyn gofal gan Awdurdod Lleol
- disgyblion ag anghenion meddygol
- rhieni ifanc a merched ifanc beichiog
- troseddwy ifanc
- plant teuluoedd mewn amgylchiadau anodd
- gofalwyr ifanc
- disgyblion lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol
- disgyblion sydd â ffobia am fynd i'r ysgol a'r rhai sy'n gwrthod mynd i'r ysgol
- disgyblion sy'n perfformio neu sydd â chyflogaeth.

Ni fwriedir i'r rhestr hon fod yn gynhwysfawr gan y bydd gan blant a phobl ifanc anghenion dysgu ychwanegol efallai ar adegau gwahanol drwy gydol eu haddysg.

Dylai Awdurdodau Lleol ac ysgolion nodi bod canlyniadau cynnar y gwerthusiad allanol o'r rhaglen Rhagori wedi tynnu sylw at y dystiolaeth ymchwil fod plant o gefndiroedd dan anfantais yn dueddol o gael llai o gymorth effeithiol ac anogaeth gan oedolion.

Blaenoriaeth 4a: Codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant ar gynhwysiant a dyletswyddau penodol yn ymwneud â gwahaniaethu a chyfle cyfartal

Amcanion

Sicrhau bod ysgolion a gefnogir gan ALLau ac eraill yn mynd ati i ddileu'r rhwystrau i ddysgu a chymryd rhan a all rwystro neu allgáu disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a grwpiau

difreintiedig. Sicrhau bod pob athro a chynorthwy-ydd cymorth dysgu yn gallu nodi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol, eu bod yn meddu ar y'r wybodaeth a'r sgiliau sydd eu hangen i roi cymorth priodol i ddysgwyr unigol ac yn gwybod pryd i ofyn am gyngor arbenigol gan eraill.

Sicrhau bod cyflenwad digonol o athrawon ac arbenigwyr o fewn ALI neu ranbarth sydd â chymwysterau cydnabyddedig ar gyfer gweithio gyda disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol.

Mae'r maes â blaenoriaeth hwn hefyd yn ymwneud â'r dyletswyddau statudol sydd ar ysgolion ac ALLau sy'n amlwg yn Neddf AAA ac Anabledd 2001 sy'n ymwneud â deddfwriaeth cynhwysiant a chyfle cyfartal.

Gwariant cymwys:

- Datblygu polisiau a hyfforddiant Cynhwysiant effeithiol mewn ysgolion ac ALLau fel y nodir yng nghanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Gynnwys a Chynorthwyo Disgyblion (2006).
- Prynu, cynhyrchu a dosbarthu deunyddiau sy'n gysylltiedig â chynhwysiant a chyfle cyfartal.
- Darparu hyfforddiant dwyieithog (cyfrwng Cymraeg/Saesneg) i athrawon a Chynorthwywyr Addysgu mewn agweddau ar anghenion dysgu ychwanegol a chydraddoldeb, gan gynnwys adnabod disgyblion sydd â phroblemau yn gynnar a'u dyletswyddau statudol yn hyn o beth.
- Cyfleoedd hyfforddi priodol i athrawon ymgymryd â hyfforddiant arbenigol mewn anghenion dysgu ychwanegol, megis:
 - y cymhwyster gorfodol ar gyfer addysgu disgyblion â nam ar y synhwyrâu ac anghenion o ran symudedd.
 - Cymwysterau ôl-raddedig mewn hyfforddiant sy'n gysylltiedig ag anghenion dysgu ychwanegol megis awtistiaeth, lleferydd, iaith a chyfathrebu, ymddygiad, anawsterau dysgu difrifol a/neu ddwys.
 - Cwrs e-ddysgu ar gyfer AAA (30 o gredydau tuag at radd Meistr) yn arwain at dystysgrif ôl-raddedig mewn Anghenion Dysgu Ychwanegol.
- Codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant mewn cysylltiad â phob mater yn ymwneud â gwahaniaethu gan gynnwys oedran, hil, rhyw, anabledd, cenedl ac eraill.

- Darparu hyfforddiant i athrawon a staff cymorth i ddiwallu anghenion plant a phobl ifanc y mae angen iddynt gael eu codi a'u cario, gofal personol, meddyginiaeth, ymyrraeth gorfforol a chymorth iechyd a diogelwch arall.
- Mesurau i fynd i'r afael â phrinder lleol neu ranbarthol posibl yn nifer yr arbenigwyr sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg
- Darparu hyfforddiant ar anghenion dysgu ychwanegol a chydaddoldeb o fewn ffiniau rhanbarthol ac ar eu traws.

Blaenoriaeth 4b: Gweithio mewn partneriaeth â disgyblion a rhieni

Amcanion

Nod y Maes Blaenoriaeth hwn yw hyrwyddo perthynas waith dda â disgyblion sydd ag anghenion dysgu ychwanegol a'u rhieni. Sicrhau bod gwybodaeth, cyngor a chanllawiau priodol ar gael yn hawdd mewn ALLau ac ysgolion a sicrhau bod dulliau priodol ar waith i ddatrys anghydfodau gan weithio gydag eraill fel y gwasanaeth partneriaeth rhieni a darparu gwasanaethau datrys anghydfodau priodol.

Gwariant cymwys:

- Cynhyrchu a dosbarthu gwybodaeth a chanllawiau i ddisgyblion a rhieni.
- Darparu gwasanaethau i hyrwyddo gwaith partneriaeth gwell a sicrhau bod disgyblion a rhieni yn chwarae rhan weithredol yn y broses o wneud penderfyniadau mewn perthynas â darpariaeth a chymorth.
- Gweithio gydag asiantaethau statudol eraill a'r sector gwirfoddol i ddarparu gwasanaethau gwybodaeth un cam i ddisgyblion a rhieni.
- Darparu gwasanaethau eiriolaeth arbenigol i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol.
- Gwybodaeth, cyngor a chanllawiau i rieni nad Saesneg neu Gymraeg yw eu hiaith gartref.
- Cymorth i rieni ag anghenion iechyd arbennig a/neu anghenion dysgu.

Mesurau Canlyniadau:

- Datblygu dadansoddiad o anghenion hyfforddi mewn AALL mewn perthynas â hyfforddiant ar y meysydd gweithgaredd uchod i lywio anghenion hyfforddi yn y dyfodol. Rhaid casglu gwybodaeth ar lefel ysgol ac ALL o ran nifer yr athrawon, cynorthwyrwyr addysgu a staff arbenigol a gyflogir, unrhyw gymwysterau arbenigol sydd ganddynt, eu gallu i weithio drwy gyfrwng y Gymraeg, y math o hyfforddiant a wneir, dull cyflwyno, dyddiad a hyd yr hyfforddiant.
- Rhaid dangos tystiolaeth o nifer yr athrawon a'r cynorthwyrwyr addysgu sy'n gwneud hyfforddiant, ynghyd â gwerthusiad o'r hyfforddiant hwnnw, y math o hyfforddiant, y dull cyflwyno a'r achrediad.
- Nifer yr athrawon mewn hyfforddiant a'r rhai sydd wedi cael cymhwyster arbenigol ym maes anghenion dysgu ychwanegol a nodi'n benodol y rhai sy'n gallu gweithio drwy gyfrwng y Gymraeg.
- ALLau i ddatblygu cofrestr o athrawon a chynorthwyrwyr addysgu â chymwysterau arbenigol i gefnogi disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a phroffil o'u hyfforddiant.
- Tystiolaeth o gydweithio ar draws asiantaethau a rhanbarthau i sicrhau ystod o ddarpariaeth a chymorth priodol sydd ar gael i ddiwallu anghenion dysgwyr ag anghenion ychwanegol.
- Gwybodaeth a chynghor gwell ar gael i ddisgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol a'u rhieni.

Monitro a Gwerthuso

Mae'n ofynnol i ALLau gyflwyno adroddiad bob blwyddyn i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar y Maes Gweithgaredd hwn. Rhaid i'r adroddiad hwn gynnwys:

- copi o'r dadansoddiad o anghenion hyfforddi
- yr hyfforddiant sydd ar gael ar gyfer anghenion dysgu ychwanegol o fewn yr ALL ac ar draws y rhanbarth
- y dulliau a ddefnyddir i werthuso hyfforddiant athrawon, cynorthwyrwyr addysgu a staff arbenigol
- y dulliau a ddefnyddir i weithio mewn partneriaeth â disgyblion a rhieni, sut y maent yn gwerthuso eu safbwyntiau ar yr wybodaeth a'r cynghor a roddir a datblygu gwasanaethau eiriolaeth arbenigol
- unrhyw drefniadau ar gyfer cydweithio.

Bydd yn ofynnol hefyd i ALLau gyflwyno tystiolaeth o'r modd y maent wedi monitro canlyniadau a chynnydd dysgwyr sydd ag anghenion dysgu ychwanegol, a'r modd y maent wedi nodi bylchau mewn cymorth a'r cynlluniau yn y dyfodol i ddiwallu'r ystod o anghenion dysgu ychwanegol.

Dylai'r gweithgaredd hwn ategu'r blaenoriaethau a nodwyd yng nghynlluniau addysg sengl Awdurdod Lleol ar gyfer dysgwyr ag anghenion dysgu ychwanegol.

Gwybodaeth Arall

Dylai Awdurdodau Lleol ystyried y ddeddfwriaeth a'r dogfennau cyfarwyddyd cenedlaethol canlynol:

- Cynnwys a Chynorthwyo Disgyblion (2006).
- Safonau Ansawdd mewn Gwasanaethau Nam ar y Synhwyr (2006).
- Cynllun Gweithredu Cymru ar gyfer Anhwylder yn y Sbectwm Awtistig (2008).
- Mynediad i Addysg a Chymorth i Ddisgyblion ag Anghenion Meddygol (ymgyngoriad 2007).
- Safonau Ansawdd o ran cynorthwyo disgyblion Mwy Galluog a Thalentog (ymgyngoriad 2006-07).
- Gweithio Gyda'n Gilydd - Gwasanaethau Lleferydd ac Iaith i blant a phobl ifanc (2003).
- Iechyd a Lles Emosiynol Disgyblion.
- Strategaeth Lleiafrifoedd Ethnig i Gymru (ymgyngoriad 2006).
- Deddf AAA ac Anabledd 2001.
- Deddf Addysg 2002.
- Cod Ymarfer AAA Cymru (2002).
- "Llunio Dyfodol Addysg Arbennig - Rhaglen Weithredu ar gyfer Cymru" (1999).
- Llawlyfr o Arferion Da AAA (2003).
- Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (2005).
- Deddf Cysylltiadau Hiliol (Diwygio) (2000).

Mae ystod o gyfleoedd hyfforddi yn lleol a chysiau mwy ffurfiol wedi eu darparu gan Sefydliadau Addysg Uwch yn feysydd o wariant cymwys yn y maes gweithgaredd hwn.

Manylion Cyswllt Gweithgaredd 4

Mair Watkins
Yr Is-adran Cymorth i Ddysgwyr
Ffôn: 029 2082 6077

Gweithgaredd 5: Iaith Pawb Mewn Ysgolion

Blaenoriaethau ar gyfer 2009-10

- A Codi Safonau yn yr Iaith Gymraeg ymhob Cyfnod Allweddol
- B Codi Safonau Mewn Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg drwy'r Cwricwlwm

Nodau

Nod y gweithgaredd hwn yw sicrhau bod ystod o ddarpariaeth a chymorth ar waith ym mhob ysgol ac Awdurdod Lleol yng Nghymru i sicrhau y darperir y Gymraeg yn effeithiol mewn ysgolion. Ei nod yw helpu i weithredu a datblygu'r Gymraeg fel iaith gyntaf ac ail iaith, a chyda darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws y cwricwlwm.

Gwybodaeth Arall

Mae *Iaith Pawb*, Cynllun Gweithredu Cenedlaethol ar gyfer Cymru Ddwieithog, yn nodi targed i gynyddu nifer y siaradwyr Cymraeg erbyn 2011. Dylai ysgolion a gefnogir gan Awdurdodau Lleol ddatblygu strategaethau a fydd yn eu galluogi i ymateb i'r materion a nodwyd yn *Iaith Pawb* o ran parhad a dilyniant, dulliau arloesol o ddysgu iaith, ehangu'r cyfleoedd ar gyfer cynnig pynciau dethol drwy gyfrwng y Gymraeg, a gwella gallu ieithyddol athrawon ac aelodau eraill o staff ysgol.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi gwneud ymrwymiad yng nghytundeb Cymru'n Un i 'greu Strategaeth Addysg gyfrwng-Cymraeg genedlaethol i ddatblygu darpariaeth effeithiol o addysg feithrin hyd at addysg bellach ac uwch, a'r strategaeth wedi'i hategu gan raglen weithredu'. Bydd y strategaeth hon yn destun ymgynghoriad cyhoeddus yn 2009, a dylai ysgolion ac awdurdodau lleol fod yn ymwybodol o'r strategaeth a'r rhaglen weithredu sydd ar ddod yn ystod 2009-10.

Un o'r meysydd y bydd angen mynd i'r afael ag ef yn y Strategaeth Addysg cyfrwng Cymraeg fydd dilyniant ieithyddol, yn enwedig rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd. Nodwyd y thema hon fel maes i ymdrin ag ef yn *Iaith Pawb* hefyd. Mae ymchwil wedi nodi pedwar ffactor allweddol fel rhai sy'n cael dylanwad hollbwysig ar y ddarpariaeth ieithyddol:

- bodolaeth polisi dilyniant iaith clir ar ran yr Awdurdod Lleol neu beidio

- bodolaeth polisi dilyniant iaith clir ar ran yr ysgol uwchradd neu beidio
- pa mor eglur yw'r ddealltwriaeth rhwng ysgolion cynradd a'r ysgolion uwchradd sy'n derbyn
- canfyddiad rhieni a'r cyngor a roddir iddynt gan benaethiaid.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru wedi llunio contract â Bwrdd yr Iaith Gymraeg i dreialu modelau trochi iaith, a dylai'r adroddiad interim ar y modelau peilot hyn, a gaiff eu lansio yn Haf 2008, fod o ddiddordeb i ysgolion. Yn ogystal, ariennir Bwrdd yr Iaith Gymraeg i ddatblygu a gweithredu rhaglen waith gyda nifer fach o ysgolion uwchradd a'r ysgolion cynradd sy'n eu bwydo lle mae drifft ieithyddol amlycaf. Dylai'r canfyddiadau sy'n deillio o'r gwaith hwn gael eu hystyried gan ysgolion ac awdurdodau wrth iddynt geisio gwella cyfleoedd am gynnydd a sicrhau gwell dilyniant mewn addysg cyfrwng Gymraeg yn enwedig rhwng cyfnodau allweddol 2 a 3, drwy gynllunio'r cyfnod pontio yn fwy gofalus ar draws ysgolion.

Bydd i'r Fframwaith Effeithiolrwydd Ysgolion fwy o arwyddocâd erbyn 2009-10, ac mae angen i Awdurdodau Lleol ac ysgolion sicrhau eu bod yn gwneud gwaith cynllunio mewn ffordd fwy cydweithredol a strategol i godi safonau. Yn ôl adroddiadau Estyn a chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru, dylai hyn gynnwys gwaith cynllunio mwy effeithiol i ddarparu ar gyfer y niferoedd cynyddol o ddisgyblion sy'n dewis addysg Gymraeg er mwyn sicrhau parhad ieithyddol a chynnig llwybrau galwedigaethol drwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog.

Mae adroddiadau Estyn hefyd yn cyfeirio at yr angen i ysgolion a sefydliadau hyfforddiant cychwynnol athrawon ddatblygu gwell arbenigedd staff yn yr iaith Gymraeg ac yn yr addysgeg gysylltiedig er mwyn gwella'r broses o addysgu Gymraeg fel ail iaith ac addysgu drwy gyfrwng y Gymraeg.

Rhaid i'r ymgyrch i wella safonau llythrennedd gynnwys llythrennedd yn yr iaith Gymraeg i'r rhai sy'n astudio Gymraeg fel iaith gyntaf. I bawb sy'n dysgu Gymraeg, rhaid i'r gwersi a gaiff eu dysgu o'r fenter Rhagori gael eu cymhwyso wrth fynd i'r afael â'r cysylltiad rhwng anfantais economaidd-gymdeithasol a thangyflawniad disgyblion i gynyddu'r cyfleoedd i grwpiau o ddysgwyr dan anfantais gyflawni. Hefyd, dylai ysgolion dalu sylw priodol i anghenion dysgu ychwanegol.

Mae *Y Wlad sy'n Dysgu: Gweledigaeth ar Waith* yn cydnabod y rôl hollbwysig sydd gan addysg ar bob lefel wrth helpu i gyflawni gweledigaeth a dyheadau *laith Pawb* ac yn pwysleisio eto bod yn rhaid i'r system addysg yng Nghymru wasanaethu anghenion y ddwy iaith sydd ganddi. I hyrwyddo'r iaith Gymraeg, mae *Gweledigaeth ar Waith* yn amlinellu'r strategaeth a'r blaenoriaethau a gaiff eu datblygu, gan gynnwys:

- rhoi cyfle i ddisgyblion fanteisio ar ystod ehangach o bynciau drwy gyfrwng y Gymraeg
- datblygu mesurau wedi eu targedu i fynd i'r afael â'r heriau sy'n gysylltiedig â materion o ran parhad ieithyddol
- cefnogi'r gwaith o ddatblygu adnoddau ystafell ddosbarth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog
- cynyddu cyfran yr adnoddau GCaD Cymru sydd ar gael yn Gymraeg
- mynd i'r afael â'r drifft o'r Gymraeg fel iaith gyntaf i'r Gymraeg fel ail iaith wrth fynd o'r ysgol gynradd i'r ysgol uwchradd.

Mae'r Gronfa Ysgolion Gwell yn rhoi cymorth penodol ychwanegol i ategu'r rhaglenni hyn, gan gynorthwyo ysgolion ac awdurdodau lleol i ddatblygu mentrau newydd ac i arloesi. Mae Awdurdodau Lleol yn gyson wedi cyfeirio at ddewis blaenoriaethau o fewn y gweithgaredd hwn i ategu agenda *laith Pawb* eu hawdurdod a'u Cynlluniau Plant a Phobl Ifanc.

Dylai Awdurdodau Lleol hefyd nodi yn eu cynlluniau gwariant pa ffrydiau ariannu eraill a ddefnyddiant i helpu i gyflawni gweledigaeth a dyheadau *laith Pawb*.

Gall hyfforddiant i athrawon ar gyflwyno'r cwricwlwm diwygiedig a gyflwynwyd yn 2008 gael ei gefnogi o dan Weithgaredd 2 (Cymraeg yng Nghyfnodau Allweddol 2-4).

Blaenoriaeth 5a: Codi Safonau yn yr Iaith Gymraeg Ymhob Cyfnod Allweddol

Amcanion

- Gwella sgiliau ieithyddol pob ymarferydd ar bob cam, ganddatblygu arbenigedd staff i wella addysgu Cymraeg, yn enwedig Cymraeg fel ail iaith ond hefyd Gymraeg fel iaith gyntaf.

- Sicrhau cyflenwad digonol o athrawon gyda'r sgiliau ieithyddol angenrheidiol i gyflawni asesiadau ar bob cam.
- Gwella safonau asesu, gan gynnwys asesu ar gyfer dysgu.
- Gwella gweithgareddau dilyniant drwy gynllunio'r gwaith pontio rhwng ysgolion yn fwy gofalus a dangos manteision datblygiad parhaus sgiliau Cymraeg.
- Mynd i'r afael â thangyflawniad, er enghraifft, cyfleoedd dysgu i leihau'r bwlch rhwng cyflawniadau bechgyn a merched a chynyddu cyrhaeddiad disgyblion o gefndiroedd dan anfantais yn yr iaith Gymraeg.
- Nodi a rhannu arferion gorau o ran addysgu a dysgu Cymraeg.

Gwariant cymwys

Gweithgareddau a strategaethau cydweithredol sy'n ymdrin ag amcanion y gweithgaredd sy'n cynnwys:

- sicrhau bod ymarferwyr yn mynd ar gyrsiau hyfforddi priodol sy'n datblygu arbenigedd staff i wella addysgu Cymraeg, yn enwedig Cymraeg fel ail iaith ond hefyd Gymraeg fel iaith gyntaf;
- cyfleoedd hyfforddi i ymarferwyr ar gyrsiau hyfforddi Cymraeg priodol sy'n anelu at wella eu sgiliau iaith Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth (D.S. **Nid** yw'r Cynllun Sabothol Cymraeg cenedlaethol yn gymwys am gyllid Ysgolion Gwell. Anogir awdurdodau i gydweithredu gyda'i gilydd ac â'u canolfan Cymraeg i Oedolion ranbarthol i drefnu cyrsiau o'r fath)
- rhaglenni strwythuredig o weithdai a/neu weithgareddau a anelir at archwilio ac adolygu adnoddau dysgu ac adnoddau ar gyfer dysgu'r Gymraeg
- prynu adnoddau dysgu ac addysgu i'w defnyddio i wella dysgu'r Gymraeg
- gweithgareddau sy'n hybu dilyniant a pharhad ar draws Cyfnodau Allweddol mewn sgiliau iaith Gymraeg, gan gynnwys gwella cysylltiadau rhwng ysgolion cynradd ac uwchradd i sicrhau cynllunio ieithyddol digonol
- gweithgareddau sy'n cefnogi gweledigaeth a dyheadau *iaith Pawb*, mewn perthynas ag addysgu a dysgu'r Gymraeg, er enghraifft, partneriaethau rhwng ysgolion i feithrin datblygu sgilian iaith Gymraeg ymhlith staff a disgyblion.

Gall costau hyfforddiant gynnwys costau athrawon cyflenwi angenrheidiol.

Gweithgaredd 5b: Codi Safonau Mewn Darpariaeth Cyfrwng Cymraeg Drwy'r Cwricwlwm

Amcanion

- Hyrwyddo'r defnydd cynyddol o'r Gymraeg fel cyfrwng darparu ym mhob maes o'r cwricwlwm mewn ysgolion cyfrwng Cymraeg, dwyieithug a chyfrwng Saesneg dynodedig.
- Hyrwyddo presenoldeb gan ymarferwyr ar hyfforddiant ar y technegau addysgu diweddaraf i wella sgiliau iaith a sgiliau methodolegol a sgiliau denu diddordeb dysgwyr, er enghraifft, gan ymgorffori sgiliau allweddol, sgiliau meddwl, sgiliau beirniadol ymhob gwers ar yr iaith Gymraeg a thrwy gyfrwng y Gymraeg, a darparu ystod eang o weithgareddau sy'n galluogi dysgwyr i ddefnyddio iaith mewn amrywiaeth o sefyllfaoedd.

Gwariant cymwys

Gweithgareddau a strategaethau cydweithredol sy'n ymdrin ag amcanion y gweithgaredd sy'n cynnwys:

- Trefnu cyrsiau hyfforddi strwythuredig priodol sy'n hyrwyddo'r technegau addysgu diweddaraf i ymarferwyr, a nodi a rhannu arfer gorau o ran darpariaeth cyfrwng Cymraeg a darpariaeth ddwyieithog.
- rhaglenni strwythuredig o weithdai a gweithgareddau sy'n anelu at ystyried ac adolygu'r adnoddau dysgu ac addysgu sydd ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg, a datblygu deunyddiau newydd (D.S. Dylid cyfeirio ymholiadau at y Gangen Gomisiynu, Uned Datblygu'r Iaith Gymraeg, APADGOS (Ffôn: 01443 663700), a'r Grid Cenedlaethol ar gyfer Dysgu (Ffôn: 029 2026 5177) cyn bwrw ati i ddatblygu deunyddiau **newydd**, er mwyn osgoi gwaith dyblygu diangen); bydd unrhyw ddeunyddiau newydd ar gael i APADGOS eu dosbarthu'n genedlaethol fel y bo'n briodol).
- manteisio ar gyfleoedd hyfforddi ar gyfer ymarferwyr o ysgolion cyfrwng Saesneg neu ddwyieithog yn ogystal ag ysgolion cyfrwng Cymraeg ar addysgu pynciau'r cwricwlwm trwy gyfrwng y Gymraeg neu'n ddwyieithog er mwyn gwella sgiliau dysgwyr yn y Gymraeg.
- prynu adnoddau addysgu a dysgu i'w defnyddio i wella agweddau penodol ar ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg.

- datblygu cyrsiau galwedigaethol cyfrwng Cymraeg ac asesu a/neu hyfforddiant ar gyfer staff a fydd yn ymgymryd â gwaith addysgu neu asesu'n allanol mewn pynciau galwedigaethol (os nad fel arall yn cael cymorth grant).
- gweithgareddau sy'n cefnogi gweledigaeth a dyheadau *iaith Pawb* mewn perthynas ag addysgu a dysgu cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog.

Gall costau hyfforddiant gynnwys costau athrawon cyflenwi angenrheidiol.

Mesurau canlyniadau

Datblygu dadansoddiad o anghenion hyfforddi o fewn Awdurdod Lleol mewn perthynas â hyfforddiant ar y meysydd â blaenoriaeth uchod i lywio anghenion hyfforddiant yn y dyfodol, ynghyd â chynllun clir i roi'r hyfforddiant hwn ar waith.

Cwblhau rhaglen hyfforddi er mwyn datblygu sgiliau iaith Gymraeg athrawon a chynorthwyyr, ynghyd â niferoedd.

Cwblhau rhaglen hyfforddi ar gyfer athrawon a chynorthwyyr cyfrwng Cymraeg mewn technegau addysgu ac arferion gorau, ynghyd â niferoedd.

Cynnydd wedi'i fonitro yn lefelau sgiliau iaith Gymraeg y rhai sy'n mynd ar gyrsiau iaith Gymraeg i wella eu sgiliau.

Cynnydd wedi'i gofnodi yn nifer y gweithdai ar gyfer ymarferwyr ar ddeunyddiau dysgu ac addysgu iaith Gymraeg a chyfrwng Cymraeg, er mwyn sicrhau gwell ymwybyddiaeth o ddeunyddiau sy'n bodoli eisoes a datblygiad posibl deunyddiau newydd.

Cynnydd yn nifer y disgyblion sy'n gwneud TGAU Cymraeg.

Cynnydd canrannol flwyddyn ar ôl blwyddyn yn nifer y disgyblion sy'n cyrraedd lefel 4 ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 2 yn unol â Chynllun Plant a Phobl Ifanc eich awdurdod.

Lefelau cyflawniad uwch (ar ddiwedd y cyfnodau allweddol).

Cynnydd wedi'i gofnodi yn nifer y disgyblion sy'n parhau â'r Gymraeg fel iaith gyntaf.

Asesiad athrawon i fod yn gyson â chanlyniadau lleol/cenedlaethol (ar bob cam).

Mwy o gyfleoedd dysgu i ddysgwyr sy'n derbyn darpariaeth alwedigaethol cyfrwng Cymraeg a gwell arbenigedd ymhlith ymarferwyr cyfrwng Cymraeg mewn pynciau galwedigaethol.

Manylion Cyswllt Gweithgaredd 5

Jane Sorton Davies

Yr Is-adran Rheolaeth ac Effeithiolrwydd Ysgolion

Ffôn: 029 2082 6008

Gweithgaredd 6: TGCh Mewn Ysgolion

Blaenoriaethau ar gyfer 2008-9

A Hunanadolygu TGCh

B Datblygu a Rhannu Arferion Da

Nodau

Gwella safonau sgiliau TGCh.

Dangos effaith TGCh wrth wella safonau cyrhaeddiad i ddisgyblion ar draws y cwricwlwm.

Datblygu diwylliant o hunanadolygu TGCh mewn ysgolion sy'n cyfrannu'n sylweddol at well Effeithiolrwydd mewn Ysgolion.

Gofynion cyffredinol

Disgwyliad Llywodraeth Cynulliad Cymru o hyd yw:

- y dylai pob ysgol fod â darpariaeth ddigonol o TGCh er mwyn galluogi disgyblion i ddatblygu a defnyddio eu sgiliau TGCh wrth astudio pynciau'r cwricwlwm cenedlaethol (y gymhareb disgybl: cyfrifiadur ofynnol a argymhellir yw 8:1 mewn ysgolion cynradd, 5:1 mewn ysgolion uwchradd a 2:1 mewn ysgolion arbennig);
- y bydd pob ysgol yn gysylltiedig â'r Rhwydwaith Dysgu Gydol Oes/Rhwydwaith Sector Cyhoeddus;
- y bydd ALLau yn rhoi sylw arbennig i ddiwallu anghenion ysgolion bach ac ysgolion ynysig, unedau cymorth i ddisgyblion ac ysgolion arbennig.

Mater i'w benderfynu'n lleol yw trefniadau caffael ar gyfer TGCh ond bydd angen i Awdurdodau Lleol allu dangos eu bod wedi cydymffurfio â deddfwriaeth caffael Ewropeaidd a gofynion Gwerth Gorau. Anogir ALLau i ystyried atebion cod agored lle y bydd y rhain yn rhoi gwerth gorau am arian ac yn gynaliadwy yn lleol.

Rhaid i ALLau sicrhau bod gan bob un o'u hysgolion drefniadau effeithiol ar waith i sicrhau y defnyddir TGCh yn ddiogel ac yn gyfrifol.

Lle y bydd ALLau wedi defnyddio adnoddau'r Gronfa Ysgolion Gwell i ddatblygu adnoddau'r cwricwlwm ar-lein i athrawon, y disgwyliad arferol yw y caiff y rhain eu cyhoeddi drwy GCaD Cymru (yn amodol ar brosesau sicrhau ansawdd).

Hyfforddiant Athrawon TGCh

Gall hyfforddiant i athrawon i gyflwyno newidiadau i'r cwricwlwm TGCh y bwriedir eu cyflwyno o fis Medi 2008 gael ei gefnogi o dan Weithgaredd 2.

Blaenoriaeth 6a: Hunanadolygu TGCh

Amcanion

- Hyrwyddo dealltwriaeth o Fframwaith Hunanadolygu TGCh BECTA a'i fabwysiadu o fewn cyd-destun agenda ehangach Effeithiolrwydd Ysgolion.
- Galluogi ysgolion i gyflawni asesiad cadarn o'u galluoedd TGCh gan ddefnyddio'r Fframwaith Hunanadolygu a nodi'r camau y mae angen eu cymryd i wella.
- Helpu ysgolion i asesu effaith TGCh ar wella safonau cyrhaeddiad i'w disgyblion.
- Dangos sut mae'r Fframwaith Hunanadolygu yn cyfrannu at wella Effeithiolrwydd Ysgolion.
- Cydnabod y Nod TGCh fel achrediad cenedlaethol sy'n dangos bod ysgol wedi cyrraedd safon (trothwy gofynnol) wrth ddefnyddio TGCh a ddisgrifir yn y Fframwaith Hunanadolygu

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn disgwyl i bob ysgol yng Nghymru fod wedi cael y cyfle i gymryd rhan ym mhroses y Fframwaith Hunanadolygu gyda'r canlyniadau targed canlynol.

Erbyn 2012:

- bydd 95% o ysgolion yng Nghymru yn ymgysylltu â phroses Fframwaith Hunanadolygu TGCh BECTA neu wedi gwneud hynny;
- o'r rhain, bydd 80% yn dangos cynnydd mewn o leiaf dwy o'r wyth elfen allweddol o'r Fframwaith Hunanadolygu, y mae'n rhaid mai effaith yw un ohonynt.

Gwariant Cymwys

- Hyfforddiant ymgynghori i staff ysgolion ac awdurdodau lleol ar egwyddorion ac arferion hunanadolygu TGCh a gweithredu Fframwaith Hunanadolygu TGCh BECTA yng Nghymru
- Achredu staff ysgolion ac awdurdodau lleol i weithredu fel aseswyr Nod TGCh

- Mentrau cydweithredol rhwng ALLau a fydd yn datblygu hyfforddiant neu adnoddau i gefnogi'r broses o weithredu'r Fframwaith Hunanadolygu yng Nghymru.
- Nodi arferion mewn ysgolion y gellir eu cynnwys fel "enghreifftiau" o'r disgrifyddion lefel yng nghanllawiau'r Fframwaith Hunanadolygu (caiff manylion ysgolion unigol eu cadw'n gyfrinachol).
- Costau asesu y mae ysgol yn mynd iddynt wrth geisio cael ei hachredu ar gyfer y Nod TGCh.
- Cymorth a hyfforddiant i ysgolion sy'n ymgymryd â phroses y Fframwaith Hunanadolygu.

Fel gyda Meysydd Gweithgaredd eraill, gall costau hyfforddiant gynnwys costau athrawon cyflenwi angenrheidiol.

Rhaid i gynlluniau gwariant ALLau egluro:

- sut y byddant yn hyrwyddo'r Fframwaith Hunanadolygu ac yn cefnogi ysgolion drwy'r broses honno
- sut y byddant yn blaenoriaethu ysgolion o ran cymorth a sut mae'r penderfyniad hwn yn ystyried adroddiadau Estyn a Chynlluniau Datblygu Ysgolion
- sut y mae ysgolion unigol yn mynd rhagddynt gyda phroses y Fframwaith Hunanadolygu
- pa waith monitro a gwerthuso a wnaed ganddynt hyd yma o ran y broses o weithredu'r Fframwaith Hunanadolygu a'i effaith; beth oedd y casgliadau allweddol; a sut yr ystyriwyd y rhain wrth gynllunio cymorth ar gyfer ysgolion yn 2009-10.

Gwybodaeth arall

Datblygwyd y Fframwaith Hunanadolygu drwy gydweithredu â BECTA, Ofsted, yr Awdurdod Cymwysterau a Chwricwlwm (QCA), yr Asiantaeth Hyfforddiant a Datblygiad (TDA), Coleg Cenedlaethol Arweinyddiaeth Ysgolion (NCSL), pedair Adran Addysg y DU, yr Ymddiriedolaeth Ysgolion Arbenigol ac Academiâu (SSAT) a Naace, ynghyd â chyngor a chanllawiau gan ystod ehangach o bartneriaid a rhanddeiliaid. Yn dilyn prosiect peilot llwyddiannus yn 2006-07 ac argymhellion cynnar gan Weithgor Strategaeth TGCh Ysgolion, cymeradwyodd Gweinidogion y broses ffurfiol o fabwysiadu'r Fframwaith Hunanadolygu yng Nghymru ym mis Hydref 2007.

Mae pecyn ar-lein ar gyfer y Fframwaith Hunanadolygu wrthi yn cael ei ddatblygu i ymdrin â'r amodau allweddol sydd ynghlwm wrth fabwysiadu'r Fframwaith Hunanadolygu, sef:

- rhaid i'r fframwaith fod ar gael yn ddwyieithog
- rhaid lleihau'r achosion o ddyblygu agweddau ar y Fframwaith Hunanadolygu; a rhaid i'r Fframwaith Hunanadolygu weddu i ofynion Fframwaith Arolygu Cyffredin Estyn.

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn sefydlu bwrdd prosiect i adolygu'r Fframwaith Hunanadolygu yn barhaus a darparu cymorth ar draws Cymru gan gynnwys cynrychiolwyr AALLau ar gyfer pob ardal o gonsortia Cymdeithas Cyfarwyddwyr Addysg Cymru.

Blaenoriaeth 6b: Datblygu a rhannu arferion da

Amcanion

- Helpu ysgolion i roi cynlluniau gweithredu ar waith a ddatblygwyd drwy ddefnyddio Fframwaith Hunanadolygu TGCh Becta.
- Cefnogi a gwerthuso dulliau arloesol o ddefnyddio TGCh er mwyn gwella addysgu, dysgu ac effeithiolrwydd trefniadol mewn ysgolion.
- Hyrwyddo cydweithredu ac arloesedd drwy'r Rhwydwaith Dysgu Gydol Oes/Rhwydwaith y Sector Cyhoeddus.
- Nodi a rhannu arferion da wrth ddefnyddio TGCh sy'n ategu gwell Effeithiolrwydd mewn Ysgolion.

Gwariant Cymwys

- Hyfforddiant a mesurau eraill i helpu ysgolion i roi cynlluniau gweithredu ar waith a ddatblygwyd drwy ddefnyddio Fframwaith Hunanadolygu TGCh Becta.
- Hyfforddiant a mesurau eraill - gan gynnwys buddsoddi mewn caledwedd a meddalwedd lle y bo'n briodol - sy'n ategu'r defnydd arloesol o TGCh.
- Prosiectau cydweithredol rhwng AALLau, ysgolion a darparwyr eraill sy'n hyrwyddo'r defnydd arloesol ac effeithiol o'r Rhwydwaith Dysgu Gydol Oes/Rhwydwaith y Sector Cyhoeddus a/neu ddatblygu modelau cyffredin i sicrhau gwell hyfforddiant a chymorth o fewn yr adnoddau sydd ar gael.

- Datblygu a rhannu arferion da sy'n ategu gwell Effeithiolrwydd mewn Ysgolion, gan gynnwys deunyddiau astudiaethau achos i'w cyhoeddi ar GCaD Cymru.

Hyfforddiant a mesurau eraill i helpu ALLau ac ysgolion i ymateb i argymhellion sy'n deillio o gydystyried Gweddnewid Ysgolion gyda TGCh, yr adroddiad i Lywodraeth Cynulliad Cymru gan y Gweithgor Strategaeth TGCh ar gyfer Ysgolion.

Rhaid i gynlluniau gwariant ALLau egluro:

- sut y byddant yn blaenoriaethu ysgolion o ran cymorth;
- sut mae'r penderfyniad hwn yn ystyried adroddiadau Estyn a Chynlluniau Datblygu Ysgolion a chanlyniadau defnydd ysgolion o'r Fframwaith Hunanadolygu;
- sut y maent wedi monitro a gwerthuso'r cymorth y maent wedi ei roi i ysgolion yn ystod 2008-09 (neu flynyddoedd blaenorol); beth oedd y casgliadau allweddol; a sut yr ystyriwyd y rhain wrth gynllunio cymorth ar gyfer ysgolion yn 2009-10.

Gwybodaeth arall:

Gweddnewid Ysgolion gyda TGCh

Cyhoeddwyd Gweddnewid Ysgolion gyda TGCh, adroddiad y Gweithgor Strategaeth TGCh ar gyfer Ysgolion i Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Ebrill 2008. Mae copi o'r adroddiad ar gael ar y wefan: a <http://www.ngfl-cymru.org>.

Sefydlwyd y gweithgor yn 2006:

"I baratoi dogfen strategaeth i ddatblygu'r defnydd o TGCh mewn ysgolion. Dylai'r strategaeth honno fod yn seiliedig ar weledigaeth o'r posibilrwydd o ddefnyddio TGCh i drawsffurfio:

- dysgu, addysgu a chyrhaeddiad, yn y cwricwlwm a'r tu hwnt iddo, o fewn effeithiolrwydd trefniadol yr ysgol a'r tu hwnt iddo."

Mae Llywodraeth y Cynulliad eisoes yn cymryd camau mewn perthynas ag argymhellion yn ymwneud â Fframwaith Hunanadolygu TGCh Becta ac Eddiogelwch.

Fodd bynnag, roedd i argymhellion y gweithgor ar ehangu mynediad ac addysgeg oblygiadau sylweddol o ran cost ac ym marn Gweinidogion y Cynulliad roedd angen cynnal trafodaeth bellach ag

awdurdodau lleol, ysgolion, diwydiant a rhanddeiliaid eraill er mwyn asesu eu priodoldeb a'u dichonolrwydd. Bwriedir i'r drafodaeth hon ddigwydd rhwng mis Medi a mis Rhagfyr 2008 gan arwain at adolygu'r Porth i Bolisiau a bydd yn mynd i'r afael â'r meysydd allweddol canlynol:

- **diffinio'r hawliad TGCh i ddysgwyr**
gan gynnwys datblygu a gwerthuso cynllun peilot Cymru'n Un ar gyfer Gliniaduron
- **defnyddio llwyfannau dysgu**
gan gynnwys integreiddio â systemau rheoli ysgolion a defnyddio data'n effeithiol
- **addysgeg**
gan gynnwys arweinyddiaeth ysgolion a datblygiad proffesiynol
- **cyllid cynaliadwy**
gan gynnwys dulliau cydweithredol ac arloesol a'r defnydd o feddalwedd cod agored
- **cysylltu TGCh mewn ysgolion ag e-ddysgu "bob oed".**

Manylion Cyswllt Gweithgaredd 6

Kerry Darke

Yr Is-adran Gwellu Dysgu a Datblygiad Proffesiynol

Ffôn: 029 2082 6019

Atodiad B

Fformiwla Dyraniadau Dangosol 2009-10

Amlinellir fformiwla dyraniadau 2009-10 isod. Mae'r newidynnau a'r pwysoliadau canlynol wedi'u cymhwyso i'r fformiwla i gyfrifo'r dyraniadau i Awdurdod Lleol unigol ar gyfer 2009-10 fel y gwelir yn Atodiad C.

Bydd y dyraniadau terfynol yn parhau i ddibynnu ar ganlyniad Cylch Cynllunio'r Gyllideb a chânt eu cadarnhau ym mis Ionawr 2009.

Maes Gweithgaredd	Swm i'w ddyrannu	Newidynnau	Pwysoliad
1. Gwella Safonau a Chyflawniad	£13.1m	Nifer y plant (Cyn, Uwch, Arb) Mynegai Amddifadedd Plant Anheddiad <i>Dosberthir arian trosglwyddo yn ôl yr hen fformiwla ARF</i>	33.3 33.3 33.3
2. Trefniadau Cwricwlwm ac Asesu Diwygiedig	£4.6m	Nifer y plant (Cyn, Uwch, Arb) Mynegai Amddifadedd Plant Anheddiad	33.3 33.3 33.3
3. Cynorthwyo Disgyblion, Diogelu ac Amddiffyn Plant	£5.0m	Nifer model yr athrawon Nifer y plant (Cyn, Uwch, Arb) Mynegai Amddifadedd Plant	33.3 33.3 33.3
4. Cynhwysiant	£3.0m	Elfen o Asesiad o Wariant Safonol poblogaeth rhwng 0 a 19 oed anheddiad 40,000 plant dibynnol mewn grŵp economaidd-gymdeithasol isel plant dibynnol mewn teuluoedd ar Gymhorthdal Incwm/Lwfans Ceisio Gwaith plant dibynnol mewn cartrefi un oedolyn	80 10 3.33 3.33 3.33

Maes Gweithgaredd	Swm i'w ddyrannu	Newidynnau	Pwysoliad
5. Iaith Pawb mewn Ysgolion	£3.7m	Nifer y disgyblion sy'n dysgu'r Gymraeg fel Iaith Gyntaf	15
		Nifer y disgyblion sy'n dysgu'r Gymraeg fel Ail Iaith	65
		Mynegai Amddifadedd Plant	20
6. TGCh mewn Ysgolion	£7.5m	Mynegai Amddifadedd Plant	25
		Nifer y disgyblion 5+ oed	50
		Anheddiad	25

Fformiwla Dyraniadau 2009-10

$$\frac{\sum \left[\left[\frac{N_{LEA1}}{N_{W1}} \times W_1 \right] + \left[\frac{N_{LEA2}}{N_{W2}} \times W_2 \right] \dots \right]}{100} \times \pounds_W = \pounds_{LEA}$$

Lle mae:

NLEA = nifer y newidynnau yn yr AAL (e.e. disgyblion)

NW = nifer y newidynnau yng Nghymru

W = pwysoliad a gymhwysir i'r newidyn hwnnw (h.y. N)

£W = dyraniad sydd ar gael i'r Maes Gweithgaredd ledled Cymru

£LEA = dyraniad a gyfrifwyd i'r AAL

Mae hwn yn dangos y fformiwla wedi'i chymhwyso gyda dau newidyn, (h.y. NLEA1 a NLEA2 ac ati). Mewn amgylchiadau lle ceir newidynnau ychwanegol, ychwanegir mwy o dermau i rifiadur yr hafaliad fel y bo angen.

Atodiad C

Dyraniadau'r Gronfa Ysgolion Gwell 2009-10 (£000):

Nodwch: Mae dyraniadau dangosol meysydd gweithgaredd unigol yn agored i newid wrth i'r data mwyaf diweddar ddod i law.

	Blaenoriaeth 1A	Gweithgaredd Arall 1	CA diwygiedig	Cynorthwyo Disgyblion	Cynhwysiant	Iaith Pawb mewn Ysgolion	TGCh mewn Ysgolion	Cyfanswm (£000)	Cyfanswm (mewn £) fesul disgybl mewn ysgolion cynradd, uwchradd, addysg arbennig
Ynys Môn	171	129	129	111	70	81	198	888	89
Gwynedd	291	214	214	192	117	145	333	1,506	84
Conwy	304	188	187	175	108	129	297	1,387	83
Sir Ddinbych	317	150	150	164	96	122	250	1,250	76
Sir y Fflint	365	233	232	240	154	178	380	1,782	73
Wrecsam	312	195	195	197	125	147	310	1,482	79
Powys	277	225	225	195	129	148	359	1,558	76
Ceredigion	183	117	116	105	67	78	186	851	83
Sir Benfro	306	217	216	202	124	144	339	1,548	81
Sir Gaerfyrddin	463	294	294	276	180	208	469	2,184	80
Abertawe	662	315	314	374	205	275	517	2,662	75
Castell-nedd Port Talbot	416	213	213	229	142	171	342	1,726	80

	Blaenoriaeth 1A	Gweithgaredd Arall 1	CA diwygiedig	Cynorthwyo Disgyblion	Cynhwysiant	Iaith Pawb mewn Ysgolion	TGCh mewn Ysgolion	Cyfanswm (£000)	Cyfanswm (mewn £) fesul disgybl mewn ysgolion cynradd, uwchradd, addysg arbennig
Pen-y-bont ar Ogwr	362	190	190	227	131	171	320	1,591	71
Bro Morgannwg	336	172	171	208	127	176	296	1,486	68
Rhondda Cynon Taf	846	391	390	431	248	283	634	3,224	79
Merthyr Tudful	211	97	97	113	62	87	157	824	85
Caerffili	630	302	301	320	189	228	482	2,451	82
Blaenau Gwent	272	121	121	128	78	97	191	1,007	90
Tor-faen	359	128	128	169	98	123	224	1,229	76
Sir Fynwy	168	119	119	116	89	100	197	908	72
Casnewydd	379	204	203	263	145	191	346	1,730	71
Caerdydd	860	364	363	531	282	387	638	3,426	69
Cymru	8,489	4,578	4,567	4,967	2,967	3,667	7,467	36,700	77

Atodiad D

Y Gronfa Ysgolion Gwell 2009-10

Rwyf yn dymuno gwneud cais am gymorth grant am wariant yn 2009-10 fel y nodir isod:

Enw'r awdurdod:

Llofnod:

Swydd:

Dyddiad:

Crynodeb o'r Wybodaeth

Maes Gweithgaredd	Dyraniad fformiwla	Gwariant arfaethedig gan AALI	Gwariant arfaethedig gan ysgolion*	Cyfanswm y gwariant arfaethedig
Gweithgaredd 1				
Gweithgaredd 2				
Gweithgaredd 3				
Gweithgaredd 4				
Gweithgaredd 5				
Gweithgaredd 6				
CYFANSWM				

*h.y. swm y grant i'w ddirprwyo i ysgolion o dan bob Maes Gweithgaredd

Proffil Rhagolygon Gwariant 2009-10

Tymor	Gwariant amcangyfrifedig (fel % o gyfanswm y dyraniad fformiwla)
Tymor 1 (cyfnod yn dod i ben 31 Gorffennaf 2009)	%
Tymor 2 (cyfnod yn dod i ben 31 Rhagfyr 2009)	%
Tymor 3 (cyfnod yn dod i ben 31 Mawrth 2010)	%

Cronfa Ysgolion Gwell 2009-10

Awdurdod Lleol:

Maes Gweithgaredd:

Cynigion yr Awdurdod Lleol

Atebwch BOB cwestiwn ar ffurf pwyntiau bwled. Nid oes angen disgrifiadau hir, cyffredinol.

1. Nodwch y Blaenoriaethau y byddwch yn eu targedu o fewn y maes gweithgaredd hwn

Esboniwch eich rhesymeg.

2. A ydych yn targedu ysgolion/grwpiau o ysgolion penodol mewn perthynas â blaenoriaethau o fewn y maes gweithgaredd hwn? Ydw/Nac ydw (Rhowch gylch o amgylch yr un priodol.)

Esboniwch eich rhesymeg.

Rhestrwch yr ysgolion/grwpiau o ysgolion.

3. Nodwch yr hyfforddiant arfaethedig a'r mesurau eraill a fydd yn cefnogi ac yn cyflawni'r blaenoriaethau a dargedir o fewn y maes gweithgaredd hwn.

4. Nodwch y meini prawf llwyddiant a ddefnyddir i fonitro a gwerthuso gwariant ar draws blaenoriaethau wedi eu targedu o fewn y maes gweithgaredd hwn yn 2009-10.

5a. Sut y bydd yr Awdurdod Lleol yn monitro ac yn gwerthuso effaith y gwariant ar safonau ac ansawdd mewn perthynas â blaenoriaethau wedi eu targedu o fewn y maes gweithgaredd hwn?

5b. Sut y bydd ysgolion yn monitro ac yn gwerthuso effaith y gwariant ar safonau ac ansawdd mewn perthynas â blaenoriaethau wedi eu targedu o fewn y maes gweithgaredd hwn?

6. Pan wnaethoch werthuso gwariant yn y maes gweithgaredd hwn ar gyfer 2008-09:

- pa faterion o bwys a nodwyd gennych?
- pa gamau a gymerwyd?

7. Pa drefniadau y bydd yr Awdurdod Lleol yn eu gwneud er mwyn sicrhau bod arfer da/mentrau newydd yn y maes gweithgaredd hwn yn cael eu hymgorffori o ganlyniad i hyn ac yn cael eu rhannu o fewn ysgolion a rhyngddynt?

8. Pa drefniadau y bydd yr Awdurdod Lleol yn eu gwneud i sicrhau rheolaeth ariannol mewn perthynas â gwariant yn y maes gweithgaredd hwn?

9. Rhowch un enghraifft (yn unig) sy'n dangos sut yr ydych wedi cyflawni gwerth am arian o fewn y maes gweithgaredd hwn (nid ar gyfer pob maes â blaenoriaeth).

10. Rhowch fanylion ac eglurwch unrhyw gynigion ar gyfer:

- (a) trosglwyddo arian i mewn neu allan o'r maes gweithgaredd hwn
- (b) dirprwyo i ysgolion

Manylion Cyswllt yr Awdurdod Lleol ar Gyfer y Gweithgaredd Hwn

Enw:

Swydd:

Cyfeiriad:

Ffôn:

e-bost:

Atodiad E

Gwybodaeth Reoli

Targedau'r Gronfa Ysgolion Gwell Ar Gyfer 2009-10

Gweithgaredd/Dangosydd Blaenoriaeth

Gweithgaredd 1	Codi Safonau A Gwella Cyflawniad	Alldro Amcangyfrifedig	Alldro Gwirioneddol
Blaenoriaeth A Pontio Effeithiol	Nifer y digwyddiadau hyfforddi a gynhaliwyd ar gyfer staff ysgol i fynd i'r afael â meysydd ar gyfer gwella o ran cynllunio'r broses bontio fel y nodwyd gan Estyn yn ei adroddiad ym mis Mehefin 2008. Nifer y digwyddiadau hyfforddi a gynhaliwyd ar gyfer staff cynghori lleol i fynd i'r afael â meysydd ar gyfer gwella o ran cynllunio'r broses bontio fel y nodwyd gan Estyn yn ei adroddiad ym mis Mehefin 2008.	Cynradd Uwchradd	
Blaenoriaeth B Mynd i'r afael â agiliau sylfaenol	Canran yr ysgolion a gefnogir wrth sefydlu a chyflawni rhaglenni ymyrryd yn y Sgiliau Sylfaenol Nifer yr ysgolion a gefnogir wrth sefydlu a chyflawni rhaglenni ymyrryd yn y Sgiliau Sylfaenol Cyfran yr ysgolion cynradd ac iau, a gefnogir gan y cyllid hwn, lle bu cynnydd yng nghanran y plant 11 oed sy'n cyrraedd lefel 4 neu uwch yn nhasgau y Cwricwlwm Cenedlaethol a phrofion Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf. Canran y disgyblion mewn ysgolion cynradd, a gefnogir gan y cyllid hwn, nad ydynt wedi cyrraedd lefel 4 y Cwricwlwm Cenedlaethol ond sydd wedi gwneud cynnydd mesuradwy mewn Saesneg neu Gymraeg iaith gyntaf. Cyfran yr ysgolion uwchradd, a gefnogir gan y cyllid hwn, lle bu cynnydd yng nghanran y bobl ifanc 16 oed sy'n cael o leiaf raddau A* -C ac A*-G, mewn Saesneg a Chymraeg.	Cynradd Uwchradd Cynradd Uwchradd	

Canllawiau ar y Gronfa
Ysgolion Gwell 2009-10

Tachwedd 2008

Cylchlythyr Canllawiau
Rhif: 019/2008

Gweithgaredd 1 (parhad)	Codi Safonau A Gwella Cyflawniad		Alldro Amcangyfrifedig	Alldro Gwirioneddol
Blaenoriaeth C Darparu leithoedd Tramor Modern yng Nghyfnod Allweddol 2	Canran yr ysgolion cynradd sy'n gweithio mewn clystyrau gydag ysgolion uwchradd i gynig leithoedd Tramor Modern yng Nghyfnod Allweddol 2 Canran yr athrawon a gafodd hyfforddiant i ddarparu leithoedd Tramor Modern (un unol â'r Fframwaith anstatudol ar gyfer leithoedd Tramor Modern yn CA2) Nifer yr ysgolion uwchradd sy'n cael cymorth i weithio gydag ysgolion cynradd cysylltiedig	Cynradd		
Gweithgaredd 2	Cwricwlwm Ac Asesu Diwygiedig	Targed	Alldro Amcangyfrifedig	Alldro Gwirioneddol
Blaenoriaeth A Cyfnod Sylfaen	Nifer y staff addysgu a chymorth sydd wedi eu hyfforddi yn y technegau addysgeg ac asesu sy'n angenrheidiol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen (gan ddefnyddio Pecyn Hyfforddi Cenedlaethol y Cyfnod Sylfaen). Canran y staff addysgu a chymorth sydd wedi eu hyfforddi yn y technegau addysgeg ac asesu sy'n angenrheidiol ar gyfer y Cyfnod Sylfaen. Swm a wariwyd ar y Cyfnod Sylfaen o Weithgaredd 2 (£)	Cynradd £		

Gweithgaredd 2 (Parhad)	Cwricwlwm Ac Asesu Diwygiedig		Alldro Amcangyfrifedig	Alldro Gwirioneddol
Blaenoriaeth B Cynorthwyo asesiadau athrawon	Nifer y staff addysgu sydd wedi eu hyfforddi yn y technegau asesu gan gynnwys safoni a chymedroli mewnol. Canran y staff addysgu sydd wedi eu hyfforddi yn y technegau asesu gan gynnwys safoni a chymedroli mewnol. Nifer yr ysgolion sy'n gysylltiedig â chymedroli ar draws cyfnodau i gefnogi'r cyfnod pontio. Canran yr ysgolion sy'n gysylltiedig â chymedroli ar draws cyfnodau i gefnogi'r cyfnod pontio.	Cynradd Uwchradd Cynradd Uwchradd Cynradd Uwchradd Cynradd Uwchradd		
Blaenoriaeth C Y cwricwlwm diwygiedig 3-19	Nifer y digwyddiadau hyfforddi (mewn canolfannau ac ysgolion) a gynhelir i gefnogi gwaith parhaus ysgolion o baratoi ar gyfer y defnydd o'r Gorchmynion Cwricwlwm diwygiedig 3-14 (i'w cyhoeddi ym mis Ionawr 2008; i'w gweithredu ym mis Medi 2008-2011). Nifer y mentrau i gefnogi'r gwaith o ddatblygu a rhannu arfer da i hyrwyddo strategaethau addysgu effeithiol ar gyfer plant 3-19 oed. Nifer a chanran yr ysgolion a gefnogir yn eu dulliau ysgol gyfan o ddatblygu sgiliau meddwl ac asesu ar gyfer dysgu Nifer y digwyddiadau hyfforddi (canolfannau a/neu ysgolion) a gynhelir i rannu arfer da o ran datblygu sgiliau meddwl.	Cynradd Uwchradd Cynradd Uwchradd Cynradd Uwchradd Cynradd Uwchradd		

Gweithgaredd 3	Cynorthwyo Disgyblion, Diogelu ac Amddiffyn Plant		Alldro Amcangyfrifedig	Alldro Gwirioneddol
Blaenoriaeth A Hynwyddo presenoldeb, ymddygiad cadarnhaol ac iechyd emosiynol	Nifer yr ysgolion sy'n gysylltiedig â phrosiectau arloesol a gynlluniwyd i fynd i'r afael â dadtrithiad disgyblion ac anawsterau o ran ymddygiad.	Cynradd Uwchradd		
	Nifer y Swyddogion Lles Addysg yn dilyn rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus gytûn.			
	Canran y Swyddogion Lles Addysg yn dilyn rhaglen datblygiad proffesiynol parhaus gytûn			
	Nifer y cynlluniau cymorth i rieni a anelir at leihau nifer y gorchmynion rhianta a'r contractau rhianta o fis Mai 2006.			
	Nifer y gorchmynion rhianta ar gyfer presenoldeb Nifer y gorchmynion rhianta ar gyfer ymddygiad Nifer y contractau rhianta ar gyfer presenoldeb Nifer y contractau rhianta ar gyfer ymddygiad			
Blaenoriaeth B Diogelu	Nifer yr athrawon dynodedig sydd wedi'u hyfforddi mewn materion amddiffyn plant a nifer a chanran yr ysgolion a gwmpesir.	Cynradd Uwchradd		
	Nifer yr athrawon nad ydynt wedi'u dynodi a'r staff nad ydynt yn addysgu sydd wedi'u hyfforddi mewn materion amddiffyn plant a nifer a chanran yr ysgolion a gwmpesir.	Cynradd Uwchradd		
	Swm a wariwyd ar Ddiogelu gan ddylraniad Gweithgaredd 3 (£)	£		

Gweithgaredd 4	Cynhwysiant		Alldro Amcangyfrifedig	Alldro Gwirioneddol
Blaenoriaeth A Codi ymwybyddiaeth a hyfforddiant ar gynhwysiant a dyletswyddau penodol yn ymwneud â gwahaniaethu a chyfle cyfartal	Ar sail dadansoddiad o anghenion hyfforddi: Nifer yr athrawon a'r staff cymorth dysgu sydd wedi cael hyfforddiant arbenigol mewn anghenion dysgu ychwanegol a nifer a chanran yr ysgolion a gwmpesir. Nifer yr athrawon a'r staff cymorth dysgu sy'n gweithio drwy gyfwrng y Gymraeg a gefnogwyd gan yr hyfforddiant hwn. Nifer y cyfleoedd hyfforddi mewn perthynas â phob mater yn ymwneud â gwahaniaethu a nifer a chanran yr ysgolion a gwmpesir (dylai cynlluniau gwariant AALI nodi'r agwedd benodol neu'r agweddau penodol y bwriedir cyflwyno hyfforddiant arni neu arnynt/y cyflwynwyd hyfforddiant arni neu arnynt). Nifer yr ysgolion â pholisïau cynhwysiant a ysgrifennwyd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Gynhwysiant a Chynorthwyo Disgyblion (2006) Canran yr ysgolion â pholisïau cynhwysiant a ysgrifennwyd yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cynulliad Cymru ar Gynhwysiant a Chynorthwyo Disgyblion (2006)	Cynradd Uwchradd Cynradd Uwchradd Cynradd Uwchradd Cynradd Uwchradd Cynradd Uwchradd Cynradd Uwchradd		
Blaenoriaeth B Gweithio mewn Partneriaeth â Rhieni	Nifer y datrysiadau llwyddiannus h.y. nad oedd angen iddynt wneud apêl. Canran y datrysiadau llwyddiannus h.y. nad oedd angen iddynt wneud apêl.	Pob ysgol		

Gweithgaredd 5	Iaith Pawb Mewn Ysgolion		Alldro Amcangyfrifedig	Alldro Gwirioneddol
Blaenoriaeth A Codi Safonau yn yr Iaith Gymraeg ymhob Cyfnod Allweddol	Ar sail dadansoddiad o anghenion hyfforddi: Niferoedd targed a niferoedd gwirioneddol yr athrawon a'r ymarferwyr sydd wedi eu hyfforddi mewn technegau addysgu a dysgu Cymraeg fel iaith gyntaf neu fel ail iaith. Niferoedd targed a niferoedd gwirioneddol yr athrawon a'r ymarferwyr sydd wedi eu hyfforddi mewn sgiliau iaith Gymraeg gyda'r nod o wella sgiliau iaith Gymraeg yn yr ystafell ddosbarth. Niferoedd targed a niferoedd gwirioneddol y gweithdai a gweithgareddau eraill a gynhaliwyd i archwilio ac adolygu adnoddau dysgu ac addysgu ar gyfer dysgu cyfrwng Cymraeg. Nifer yr ysgolion sydd wedi cael cymorth i brynu adnoddau addysgu a dysgu ar gyfer dysgu cyfrwng Cymraeg. Targedau a chynnydd gwirioneddol yn niferoedd y disgyblion sy'n parhau â'r Gymraeg fel iaith gyntaf, yn enwedig rhwng ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd.	Cynradd Uwchradd Cynradd Uwchradd Cynradd Uwchradd Cynradd Uwchradd Cynradd Uwchradd		

Gweithgaredd 5 (Parhad)	Iaith Pawb Mewn Ysgolion		Alldro Amcangyfrifedig	Alldro Gwirioneddol
Blaenoriaeth B Codi Safonau mewn darpariaeth cyfrwng Cymraeg drwy'r cwricwlwm	Ar sail dadansoddiad o anghenion hyfforddi: Niferoedd targed a niferoedd gwirioneddol yr athrawon a'r ymarferwyr sydd wedi eu hyfforddi mewn technegau addysgu a dysgu ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Niferoedd targed a niferoedd gwirioneddol y gweithdai a gweithgareddau eraill a gynhaliwyd i archwilio ac adolygu adnoddau dysgu ac addysgu ar gyfer dysgu cyfrwng Cymraeg. Nifer yr ysgolion sydd wedi cael cymorth i brynu adnoddau addysgu a dysgu ar gyfer dysgu cyfrwng Cymraeg. Niferoedd targed a niferoedd gwirioneddol yr ymarferwyr cyfrwng Cymraeg a hyfforddwyd i ymgymryd ag asesu pynciau galwedigaethol. Targedau a gwelliannau a gafodd eu monitro yn lefelau sgiliau cyfrwng Cymraeg ar gyfer dysgwyr ar bob lefel.	Cynradd Uwchradd Cynradd Uwchradd Cynradd Uwchradd Cynradd Uwchradd Uwchradd Cynradd Uwchradd		

Gweithgaredd 6	Tgch Mewn Ysgolion		Alldro Amcangyfrifedig	Alldro Gwirioneddol
Blaenoriaeth A Hunanadolygu TGCh	Nifer a chanran yr ysgolion sy'n dilyn Fframwaith Hunanadolygu BECTA	Cynradd Uwchradd		
	Nifer a chanran yr ysgolion sy'n cofnodi cynnydd a'i dystiolaeth ategol ar adnodd y Fframwaith Hunanadolygu ar-lein	Cynradd Uwchradd		
	Nifer a chanran yr ysgolion sy'n cyrraedd y lefel a argymhellir o fewn Fframwaith Hunanadolygu Becta (cam alldro yn unig)			
	Nifer a chanran yr arweinydd yr ysgol sydd wedi cael hyfforddiant ar ddefnyddio'r fframwaith hunanadolygu (cam alldro yn unig)			
	Nifer a chanran yr ysgolion sydd wedi cael cymorth ymgynghori wedi ei dargedu ar y fframwaith hunanadolygu (cam alldro yn unig)			
Blaenoriaeth B Datblygu a rhannu arfer da	Nifer yr athrawon sydd wedi cael eu hyfforddi i wella eu sgiliau wrth ddefnyddio TGCh yn yr ystafell ddosbarth	Cynradd Uwchradd Arbennig		
	Canran yr ysgolion a gwmpesir	Cynradd Uwchradd Arbennig		
	Canran yr athrawon hyn sydd wedi dangos gwelliannau addysgu/dysgu sy'n deillio o'r hyfforddiant hwn	Cynradd Arbennig Uwchradd		

Gweithgaredd 6 (Cont'd)	Tgch Mewn Ysgolion		Alldro Amcangyfrifedig	Alldro Gwirioneddol
	Nifer yr uwch reolwyr a chydgyssylltwyr pwnc sy'n cwblhau hyfforddiant TGCh i hyrwyddo'r defnydd effeithiol o TGCh a) ar draws y cwricwlwm b) mewn perthynas â rheoli ysgol	Cynradd Uwchradd Arbennig		
	Canran yr ysgolion a gwmpesir mewn perthynas ag (a) a (b)	Cynradd Arbennig Uwchradd		
	Nifer yr adnoddau a ariannwyd gan y Gronfa Ysgolion Gwell a gyflwynwyd i GCaD Cymru			
	Nifer yr ysgolion sy'n cymryd rhan mewn prosiectau a ariannwyd gan y Gronfa Ysgolion Gwell a oedd yn cynnwys cydweithredu ag ysgolion neu sefydliadau eraill			
	Nifer a chanran yr ysgolion lle yr oedd TG yn cael ei harolygu a'i barnu fel gradd 3 neu uwch (cam alldro yn unig)	Cynradd #/% Uwchradd #/%		
	Nifer a chanran yr ysgolion lle yr oedd TG yn cael ei harolygu a'i barnu fel gradd 1 neu uwch.	Cynradd Uwchradd % o'r ysgolion a gwmpesir		
	Nifer a chanran yr ysgolion a gafodd eu harolygu a'u barnu fel rhai da neu uwch ar gyfer TGCh (Sgiliau Allweddol)	Cynradd Uwchradd		